

Cyngor Sir y Fflint Strategaeth Rheoli Gwastraff 2009–2025

Rhagfyr 2009



Cynnwys

Rhagair	3
1.0 Pwrpas a Chyflwyniad	4
2.0 Ymrwymiadau Sir y Fflint	5
3.0 Proffil Sir y Fflint.....	7
4.0 Gwasanaeth Casglu Sir y Fflint	8
5.0 Cyraeddiadau a pherfformiad	11
6.0 Rhoi Newid ar Waith	14
7.0 Cyflwyno ac Adolygu'r Strategaeth.....	21
Geirfa	22

Ffigurau

Ffigur 1 Cynllun lwfans tirlenwi ar gyfer Sir y Fflint.....	5
Ffigur 2 Targedau gwastraff Llywodraeth y Cynulliad	5
Ffigur 3 Darlun gweledol o'r lwfans gwastraff yn y dyfodol	6
Ffigur 4 Y gwasanaeth casglu gwastraff trefol.....	8
Ffigur 5 Seilwaith gwastraff Cyngor Sir y Fflint.....	9
Ffigur 6 Cludo deunydd ailgylchu allan o'r Sir 2008/09	10
Ffigwr 7 Gwastraff trefol Sir y Fflint 2002-20	12
Ffigwr 8 Cyfraddau ailgylchu/compostio trefol Sir y Fflint.....	12
Ffigwr 9 Rhagamcan o wastraff tirlenwi a'r cynllun lwfans tirlenwi.....	13
Ffigwr 10 Yr hierarchaeth wastraff.....	14
Ffigwr 11.1 Crynodeb o gamau'r strategaeth, Lleihau/Ailddefnyddio.....	17
Ffigwr 11.2 Crynodeb o gamau'r strategaeth, Ailgylchu.....	18
Ffigwr 11.3 Crynodeb o gamau'r strategaeth, Adennill	19
Ffigwr 11.4 Crynodeb o gamau'r strategaeth, Gwaredu	19

Atodiadau

Atodiad 1 Targedau manwl ailgylchu a chompostio	27
Atodiad 2 Manylion gwasanaethau casglu gwastraff trefol Cyngor Sir y Fflint.....	28
Atodiad 3 Manylion gweithredwyr ailgylchu preifat a gontractwyd gan Gyngor Sir y Fflint i drin deunyddiau ailgylchu a gasglwyd.....	32
Atodiad 4 Dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff	35
Atodiad 5 Ffigurau gwastraff manwl amrywiol	37
Atodiad 6 Manylion y cynlluniau strategaeth rheoli gwastraff.....	40
Atodiad 7 Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a chynyddu cyfranogi	45

Byrfoddau

TA	Treulio Anaerobig
GTB	Gwastraff Trefol Biodiraddadwy
CSFf	Cyngor Sir y Fflint
SRhGSFf	Strategaeth Rheoli Gwastraff Sir y Fflint
ALI	Awdurdod Lleol
PYAALI	Pwyllgor Ymgynghorol Ailgyrchu Awdurdod Lleol
CLT	Cynllun Lwfans Tirlenwi
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
SAD	Safle Adfer Deunyddiau
GTS	Gwastraff Trefol Solid
CGRhGC	Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru
PTGGGC	Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
CDU	Cynllun Datblygu Unedol
AA	Asiantaeth yr Amgylchedd
WAW	Cynllun Craff am Wastraff
WRAP	Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
SRhG	Safle Rheoli Gwastraff
CYCA	Cynllun Ymrwymiad Credyd Adnewyddol
DPCCau	Dangosyddion Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
SGU	Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol
CGGALI	Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol
CTEG	Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff
CAGA	Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff Aelwydydd
MNC	Amrywiol Anhylosg
CGD	Cadw'ch Gymru'n Daclus
WET	Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru

Rhagair



Cyn dechrau ar fy ngwaith fel aelod Gweithredol dros Wastraff fy unig wybodaeth gefndir oedd gennyf oedd fy mod yn rhoi fy mag gwastraff du allan bob wythnos a'm gwastraff ailgylchu bob pythefnos. Ar ôl imi gwblhau'r dasg hon, ni fyddai'n croesi fy meddwl rhagor beth

fyddai'n digwydd nesaf.

Deunaw mis yn ddiweddarach mae wedi bod yn wers galed o gyfarwydddebau UE, deddfwriaeth Cynulliad, gweithdrefnau dirwyo, cwmnïau ailgylchu a phatrymau casglu ac erbyn hyn rwyf mewn gwell sefyllfa i lunio rhagair i'r diweddariad yma i Strategaeth Gwastraff Sir y Fflint.

Yn hytrach na mynd allan i ymgynghorwyr, rydym wedi defnyddio talentau o fewn y cyngor i gasglu'r wybodaeth oedd ei angen arnom i allu cynllunio ar gyfer rheoli gwastraff yn Sir y Fflint ac ar draws Gogledd Cymru yn y dyfodol. Mae wedi bod yn bleser gweithio'n agos gyda swyddogion sydd wedi defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i lywio'r broses.

Yn y pen draw, cawn ein llywodraethu gan gyfarwydddebau a ddaw gan yr Undeb Ewropeaidd a'r rheini'n hidlo drwodd i ni yma yn Sir y Fflint, drwy San Steffan a Llywodraeth y Cynulliad.

Os nad ydym yn cyrraedd y nodau a osodir gan awdurdodau uwch o'r fath byddwn yn atebol ar gyfer dirwyon sylweddol iawn yn ystod y degawd nesaf.

Gallwn osgoi'r cosbau ariannol hyn drwy:

- ▶ atal gwastraff
- ▶ aildefnyddio
- ▶ ailgylchu
- ▶ adfer
- ▶ gwaredu gofalus o'r hyn sydd ar ôl

Rheoli gwastraff trefol yw un o'r problemau amgylcheddol fwyaf dyrus sy'n wynebu Cymru. Mae'n broblem sy'n effeithio ar bawb ledled y byd - yn ddiweddar, bûm yn sgwrsio â chynghorydd o Ynysoedd y Pilipinas ac maent hwythau'n wynebu'r un problemau'n union â ni!

Rydym wedi ymrwymo i ddibynnu cyn lleied ag y bo modd ar dirlenwi drwy gynhyrchu llai o wastraff. Er mwyn gwneud hyn, byddwn ni fel awdurdod:

- ▶ yn cyfathrebu â thrigolion
- ▶ yn sicrhau gwerth am arian
- ▶ yn gweithio mewn partneriaeth

Ers cyhoeddi'r fersiwn diwetha o'r Strategaeth Gwastraff, mae Sir y Fflint wedi cynyddu ei pherfformiad ailgylchu o flwyddyn i flwyddyn gyda'r trigolion yn gyffredinol wedi croesawu'r rhaglen o gasglu deunydd o ddrws i ddrws. Rydym wedi cyflawni'r targedau a osodwyd i ni hyd yma a lleihau swm y gwastraff gweddillol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Ond rhaid i ni wneud yn well.

Bydd y strategaethau a'r targedau a amlinellir yn y ddogfen hon yn ein helpu i ymdrin â'n defnydd o nwyddau, ein ffordd o gael gwaredar y nwyddau hynny a'n patrymau siopa. Mae'r rhain i gyd yn faterion yn y pen draw fydd yn effeithio ar gynhyrchu gwastraff a'r ffordd y bydd yn cael ei drin

Ein harwyddair yw: Adnodd yw gwastraff

Sir fechan ydym ac er mwyn sicrhau arbedion maint, rydym yn gweithio'n glos gyda Chonwy a Sir Ddinbych i sefydlu cyfleuster trin gwastraff bwyd.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych i baratoi achos cynllun far gyfe rcaffael ateb technolegol er mwyn ymdrin â gwastraff gweddilliol.

Gall fod angen rhwng 5 a 7 mlynedd i wireddu hyn.

Yn y cyfamser, bydd y strategaeth hon yng ogystal â chydweithrediad trigolion Sir y Fflint yn ein tywys tuag at ein nod yn y pen draw, sef 150kg o wastraff gweddilliol y pen y flwyddyn.

Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni hyn! Y Cynghorydd Nancy Matthews

Aelod Gweithredol dros Wastraff

1.0 | Pwrpas a Chyflwyniad

- 1.1 Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff Sir y Fflint (SRhGSFf) yn amlinellu sut y bydd Sir y Fflint yn rheoli casglu, trin a gwaredu Gwastraff Trefol sy'n cael ei gasglu gan Gyngor Sir y Fflint dros y cyfnod 2009-2025. Nod allweddol y Strategaeth yw gwella ein perfformiad amgylcheddol a lleihau ein hól troed ecolegol a gwneud y defnydd mwyaf o wastraff ar yr un pryd.
- 1.2 Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwymedig i ddyfodol lle gwelir caiff gwastraff ei weld a'i drin fel adnodd gwerthfawr.
- 1.3 Mae rheoli Gwastraff Trefol yn un o'r materion amgylcheddol pwysicaf a mwyaf heriol sy'n wynebu pob Awdurdod Lleol yng Nghymru ac un o'r prif sialensiau yw sut i leihau swm y gwastraff sy'n cael ei dirllenwi ar hyn o bryd. Er mwyn llwyddo i leihau gwastraff tirlenwi mae angen i'r Cyngor i gynnwys y cyhoedd er mwyn lleihau creu gwastraff ac i gynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn ogystal ag ystyried defnyddio technolegau newydd a mwyaf diweddar a allai gynnig atebion rheoli gwastraff yn y dyfodol. Mae bron popeth a wnawn yn creu gwastraff ac fel cymdeithas rydym ar hyn o bryd yn cynhyrchu gwastraff yn fwy nag erioed o'r blaen. Felly, fel defnyddwyr a chynhyrchwyr gwastraff, rydym yn ganolog i'r cysyniad o gynaliadwyedd, a chyrraedd y targed o 150kg y pen, erbyn y flwyddyn 2024/25 fel nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y Strategaeth Wastraff Genedlaethol ar gyfer Cymru, 2009/50 .
- 1.4 Rhan allweddol o'r ymagwedd hon yw sut y gallwn defnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithiol, a sut y gallwn wneud y gorau o'n "gwastraff" yn hytrach na'i daflu i ffwrdd. Byddai hyn yn help i ddiogelu adnoddau sy'n bodoli eisoes a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 1.5 Wrth wraidd y ddogfen hon y mae'r ymrwymadau cenedlaethol y mae'n rhaid i Sir y Fflint eu cyflawni. Gallai methu cyrraedd y targedau cenedlaethol arwain at gosbau ariannol sylweddol yn erbyn Cyngor Sir y Fflint a fyddai yn y pen draw yn cael eu talu gan y cyhoedd. Mae yno botensial gwirioneddol o wynebu cosb ariannol pe bai Cyngor Sir y Fflint yn methu cwrdd â thargedau cenedlaethol, a byddai'n effeithio'n dramatig ar allu Cyngor Sir y Fflint i gynnal safonau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.
 - a) O gofio bod y ddogfen hon yn ceisio cynllunio ar gyfer rheoli gwastraff dros y cyfnod 2009-2025, ac o gofio ymrwymadau amrywiol y bydd gofyn i Gyngor Sir y Fflint eu cyflawni dros y cyfnod hwnnw, mae angen cynnal adolygiad blynyddol o'r Strategaeth hon. Bydd cyfle i adolygu'n rheolaidd yn caniatáu i'r Cyngor fonitro ac adolygu ei ddull o weithredu yn barhaus, darparu adroddiadau rheolaidd i'r cyhoedd a chaniatáu i'r Cyngor gymryd camau adferol buan pe bai'n cael ei ddirwyo. Wrth ddarllen y ddogfen Strategaeth hon dylech nodi bod yno ddogfen Atodiadau Technegol ar wahân sy'n cynnwys rhagor o ddata cefnogol.

2.0 | Ymrwymadau Sir y Fflint

2.1 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud ymrwymadau rhyngwladol i leihau swm y gwastraff sy'n cael ei dirlenwi. I'r perwyl hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi gosod targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol (ALI), a allai arwain os na chânt eu cyflawni at LICC yn gosod dirwy ar awdurdodau unigol o £200 am bob tunnell o wastraff tirlenwi sy'n uwch na'r lwfansau cyfaint a bennwyd.

2.2 Dangosir yr uchafswm o Wastraff Trefol Bioddiraddadwy y gellir ei dirlenwi gan Gyngor Sir y Fflint mewn unrhyw flwyddyn benodol yn Ffigur 1; mae'r ffigyrau hyn wedi eu cymryd o'r canllawiau a gyhoeddwyd o fewn Cynllun Lwfans Tirlenwi (CLT) llywodraeth Y Cynulliad.).

2.3 Fel gwelir yn Ffigur 1, mae swm y gwastraff trefol biodiraddadwy (GTB) y gellir ei waredu i safle tirlenwi yn lleihau bob blwyddyn. Os bydd Cyngor Sir y Fflint yn anfon mwy o GTB i safleoedd tirlenwi nag y mae'r cynllun yn ei ganiatáu, yna bydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yr hawl i osod dirwyon ar gyfradd o £200 am bob tunnell o gwastraff uwchben y lwfans blynyddol. Mae hyn yn golygu y gallai hyd yn oed cynnydd cymharol fach o 1,000 tunnell, sy'n cyfateb yn fras i 1% o'r Gwastraff Trefol presennol, arwain at gosb ariannol o £200,000 ar gyfer y flwyddyn honno yn unig.

2.4 Mae'r Cynllun Lwfans Tirlenwi (CLT) yn cael ei ategu â nifer o dargedau Cysylltiedig a ddatblygwyd gan LICC sy'n ceisio sicrhau bod ALLau YN defnyddio gwastraff fel adnodd cyfyngedig gwerthfawr. Dangosir y targedau hyn yn Ffigur 2.

Ffigur 1 | Cynllun lwfans tirlenwi ar gyfer Sir y Fflint

Blwyddyn ariannol	Lwfans tirlenwi GTB
2004/05	27,953 (6 mis)
2005/06	52,021
2006/07	48,136
2007/08	44,252
2008/09	40,367
2009/10	36,482
2010/11	33,311
2011/12	29,081
2012/13	24,851
2013/14	23,793
2014/15	22,736
2015/16	21,678
2016/17	20,621
2017/18	19,563
2018/19	18,506
2019/20	17,448

Ffigur 2 | Targedau gwastraff Llywodraeth y Cynulliad

Targed ar gyfer pob awdurdod lleol unigol	2009-10	2012-13	2015-16	2019-20	2024-25
Isafswm lefelau ar gyfer ailddenfyddio ac ailgylchu / AD (neu gompostio) gwastraff trefol	40%	52%	58%	64%	70%
Isafswm lefelau ar gyfer AD (neu gompostio os ymrwymwyd eisoes i'r dechnoleg yma) o wastraff bwyd o geginau fel rhan o darged cyfun ailgylchu / compostio ar gyfer gwastraff trefol uchod.	-	12%*	14%	16%	16%
Uchafswm lefel o ynni o wastraff (net) ar gyfer gwastraff trefol	-	-	42%	36%	30%
Uchafswm lefel o dirlenwi ar gyfer gwastraff trefol	-	-	-	10%	5%
Uchafswm lefel o wastraff gweddilliol aelwydydd ar gyfer pob preswlydd y flwyddyn	-	295kg	258kg	210kg	150kg

Y rhain yw'r targedau statudol arfaethedig a bennwyd gan y Llywodraeth yn Genedlaethol

2.5 Fel gwelir yn Atodiad Technegol 1 ynghyd â Ffigur 2 uchod mae yno angen i gwrdd â tharged ailgylchi/compostio o 40% ym mlwyddyn ariannol Ebrill 2009 - Ebrill 2010. Hefyd erbyn y flwyddyn 2012-2013 mae yno angen i gynyddu ailgylchu i 52% sy'n cynnwys targed newydd o 12% o drin gwastraff cegin ar wahân. Nid yw cynlluniau wedi cael eu gweithredu hyd yma o gyflwyno'r gwasanaethau casglu gwastraff bwyd ar wahân ar gyfer Sir y Fflint, mae cynlluniau o'r fath yn bodoli, fodd bynnag, a nodir eu manylion yn ddiweddarach yn y Strategaeth hon.

2.6 Yn ystod yr hir dymor, mae'n amlwg o ffigur 3, bod y lwfans uchaf y pen bob blwyddyn yn gostwng yn sylweddol o 295kg yn 2012/13 i 150 kg yn 2024/25; darlunnir hyn yn ffigur tri isod. I gwrdd â'r targedau hir dymor hyn mae'r Strategaeth yn nodi nifer o atebion tymor hir y bydd Cyngor Sir y Fflint yn ceisio eu cyflawni gyda'i bartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol.

Ffigur 3 | Darlun gweledol o'r lwfans gwastraff yn y dyfodol



3.0 | Proffil Sir y Fflint

3.1 Mae gan Sir y Fflint leoliad unigryw ar y ffin yng nghornel de-ddwyrain Cymru, gyda Sir Ddinbych i'r gorllewin, Wrecsam i'r de. I'r dwyrain y mae Lloegr a sir newydd Gorllewin Swydd Gaer a Dinas Caer ynghyd â Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr. Er bod Sir y Fflint yn gadarn o fewn Cymru mae'r Strategaeth yma'n cydnabod bod yno gysylltiadau economaidd a chymdeithasol pwysig gyda gogledd orllewin Lloegr sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar hyn o bryd ar gynhyrchu gwastraff a'r opsiynau rheoli gwastraff.

3.2 Mae'r prif ardaloedd poblog yn nwyrain ac yng nghanol y sir ac yn cynnwys Bwcle, Ewlo, y Fflint ac ardal Glannau Dyfrdwy (sy'n cynnwys: Cei Connah, Shotton a Queensferry). Yma y mae 43% o boblogaeth y sir yn byw. O fewn yr ardal hon lleolwyd diwydiannau gweithgynhyrchu o bwysigrwydd rhanbarthol a rhyngwladol er enghraifft Toyota ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a British Aerospace ym Mrychdyn. Yn y gorllewin, mae 13% arall o'r boblogaeth yn byw yn yr Wyddgrug ac yn Nhreffynnon. Ardal wledig yw gweddill y sir lle y canolbwyntir ar weithgareddau amaethyddol, ffermio da byw, defaid a llaeth yn bennaf.

3.3 Y prif lwybr trafniadaeth yw'r A55 sy'n rhannu'r Sir yn ddwy o'r dwyrain i'r gorllewin a dyma'r briffordd sy'n cysylltu gogledd Cymru a Lloegr. Hon yw'r porth i Ogledd Cymru, ac mae iddi rôl ganolog ym mywyd yr is-ranbarth.

3.4 Mae arwynebedd Sir y Fflint oddeutu 43,464 hectar ac yn cynnwys rhyw 150,077 o bobl sy'n ffurfio 65,842 o aelwydydd. Ar gyfartaledd mae aelwydydd Sir y Fflint yn gyffredinol yn cynhyrchu 89,527 tunnell o Wastraff Trefol bob blwyddyn. Dylid nodi nad yw swm y Gwastraff Trefol yn gynrychioladol o'r holl gwastraff a gynhyrchir yn y Sir ac yn fras mae'n ffurfio 20% o'r holl wastraff a gynhyrchir yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth hon a'r targedau yma yn ymwneud yn unig â gwastraff trefol, mae Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (CGRhGC) yn ystyried yr holl wastraff a gynhyrchir ac mae'r Strategaeth hon wedi cael ei chynhyrchu gan gadw CGRhGC a'i argymhellion mewn cof.



4.0 | Gwasanaeth Casglu Sir y Fflint

4.1 Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu'r gwasanaeth casglu gwastraff trefol ar gyfer 65,842 o aelwydydd yn Sir y Fflint. Rhoddir crynodeb o'r gwasanaeth yn Ffigur 3 isod, ac mae manylion pellach o'r gwasanaethau a ddarperir ar gael yn Atodiad 2 yn y ddogfen Atodiadau technegol cysylltiedig.

Ffigur 4 | Y gwasanaeth casglu gwastraff trefol

Llif Gwastraff	Scheme coverage	Pa mor aml	Cynhwysyddion
Gwastraff gweddiliol Sach du	99%	Bob wythnos	Rholiau o 52 o sachau plastig plastic wedi'u cyflenwi ddwywaith y flwyddyn– Mawrth a Medi. (Mae hyn yn cael ei adolgu ar hyn o bryd)
Biniau olwyn	1%	Bob wythnos	Anheddau aml lawr ac aml ddeiliadaeth.
Deunydd ailgylchu sych Blwch glas	97%	Bob pythefnos	Blwch 55 Litr ar gyfer gwydr a dau sach box for glass and two reusable polipropolîn y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer caniau a deunydd plastig.
Bag glas	97%	Bob pythefnos	Bag y gellir ei aildefnyddio
Casgliadau organig Bin Brown	82%	Bob pythefnos (bob mis yn lonawr)	Biniau olwyn 140 Litr

4.2 Mae Cyngor Sir y Fflint, ac yntau'n Awdurdod Unedol, yn gyfrifol am gasglu a gwaredu'r holl wastraff solet trefol yn y sir. Yn sgil hynny, mae Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd yn berchen ar nifer o gyfleusterau i ymdrin â gwastraff y sir ac yn gweithredu'r safleoedd hynny. Yn yr adran hon, ceir crynodeb o'r seilwaith rheoli gwastraff fel y mae ar hyn o bryd.

4.3 Adran Gwasanaethau Amgylcheddol y sir sy'n gyfrifol am nifer o'r gweithrediadau rheoli gwastraff gan gynnwys; casglu a gwaredu Gwastraff Solet Trefol, gweithredu 26 o safleoedd 'danfon gwastraff', 8 Canolfan Ailgylchu, Cyfleuster Adfer Deunyddiau, safle trosglwyddo, cyfleuster compostio gwyntresi agored ym Maes Glas a chyfleuster yn y Fflint ar gyfer creu bêls a sypiau o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu i'w hanfon ymlaen a'u hailbroseu. Mae Ffigur 4 isod yn rhoi crynodeb o seilwaith gwastraff presennol Cyngor Sir y Fflint.

Ffigur 5 | Seilwaith gwastraff Cyngor Sir y Fflint

Elfen o'r seilwaith	Manylion
Cerbydau casglu sbwriel	14 Sach Du 1 Masnachol
Cerbydau symud sgip	2 Gerbyd Sgip
Cerbyd casglu tipio anghyfreithlon	1 Hiab Gwastad
Cerbyd casglu gwastraff clinigol	1 Cerbyd Arbenigol
Cerbyd casglu bin cŵn	1 Cerbyd Arbenigol
Cerbydau Deunyddiau Ailgylchu Sych	8 Blwch Glas 3 Bag Glas 1 Aml ddeunydd 1 Sgip Bachyn Codi 2 Wagen Fforch Godi
Cerbydau casgliadau organig	5 Bin Brown
1 Safle Adennill Deunyddiau	Ystad Ddiwydiannol Spencer, Bwcle
Pad Trosglwyddo – Swmpio Gwastraff Gweddilliol	Safle Tirlenwi Brookhill
1 Safle Ailgylchu, Swmpio a Balio	Uned 5&6 Ystad Ddiwydiannol Castle Park, Y Fflint
8 Canolfan Ailgylchu	Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Maes Glas, Yr Wyddgrug, Yr Hôb, Queensferry, Saltney
26 Safleoedd dod â gwastraff	Ar draws y sir
1 Safle Rhesgompostio	Parc Busnes Maes Glas
Safle tirlenwi	0 yn Sir y Fflint Cynnal a chadw 2 hen safle
Trin Gwastraff Bwyd	Dim ar hyn o bryd
Trin Gwastraff Gweddilliol	Dim ar hyn o bryd

4.4 Yn ogystal â Gwasanaethau Cyngor Sir y Fflint mae'r Cyngor yn gweithredu contractau ar gyfer safleoedd danfon gwastraff amrywiol ee banciau poteli, a chaiff y gwastraff a gynhyrchir o'r safleoedd hyn ei gludo i gyfleusterau preifat amrywiol o fewn a'r tu allan i Sir y Fflint. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o'r angen i drin gwastraff mor agos â phosib i'r fan lle cafodd ei gynhyrchu ac mae'n ymrwymedig i adolygu contractau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r gwerth gorau i Sir y Fflint yn ariannol yn ogystal â bod yn ddewis amgylcheddol ymarferol priodol. Mae Ffigur 6 isod yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa gyfredol gyda golwg ar symudiadau symiau o wastraff allan o'r Sir.

Ffigur 6 | Cludo deunydd ailgylchu allan o'r Sir 2008/09

Mesurwyd mewn tunelli metrig

Deunydd	0-10 Milltir	11-20 Milltir	21-30 Milltir	31-40 Milltir	50+ Milltir
Gwydr	-	3,997.032	-	-	-
Papur a cherdyn	5,755.17	-	-	-	-
Caniau (Alw)	-	-	94.169	-	-
Caniau (Dur)	-	-	-	-	383.523
Gwastraff gardd	12,932.4	-	-	-	-
Poteli plastig	-	103.410	-	294.697	294.697

4.5 Mae Ffigur 6 ac Atodiad 3 yn dangos yn glir bod y mwyafrif helaeth o ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael ei trin yn agos i Sir y Fflint gyda dim ond cyfran fechan o'r gwastraff yn cael ei gludo y tu allan i radiws 21 milltir o ffin Awdurdod Sir y Fflint. Mae'r sefyllfa hon yn awgrymu'n fras bod yna botensial i leihau effaith amgylcheddol cludo gwastraff y tu allan i'r Sir ac y byddai darparu Cyfleusterau Rheoli Gwastraff newydd byddai o fewn y Sir Fflint yn fuddiol. Bydd y mater hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i fonitro gyda'n partneriaid rhanbarthol gyda Sir y Fflint yn ymdrechu i gynnal ei hegwyddor agosrwydd.

5.0 | Cyraeddiadau a pherfformiad


5.1 Ers cyhoeddi Strategaeth Rheoli Gwastraff Sir y Fflint 2005 cyflawnwyd y cyraeddiadau nodedig canlynol yn Sir y Fflint a Rhanbarth Gogledd Cymru:

- ▶ Cyflwyno'r Cynllun Gwahardd Faniau (Trwydded Parc Ailgylchu); sydd wedi atal gwastraff masnach rhag mynd i safleoedd gwastraff domestig.
- ▶ Lleihawyd gwastraff ymhellach trwy hyrwyddo Biniau Compost Cartref a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ledled y sir.
- ▶ Ehangwyd y wasanaeth casglu gwastraff gwyrdd organig o'r ardd o ymyl y ffordd i 82% o'r sir yn 2008.
- ▶ Agorwyd Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau ym Mwcle yn ystod 2006. Mae'r Cyfleuster yn didoli ac yn byrnu deunydd i'w ailgylchu sy'n cael ei gasglu drwy'r wasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd a deunydd i'w ailgylchu sy'n cael ei adael mewn canolfannau ailgylchu gwastraff domestig. Caiff gwastraff gweddilliol o Barciau Ailgylchu ei ddioli ymhellach i adennill cymaint o ddeunydd i'w ailgylchu â phosib. Ar ôl eu didoli a'u byrnu, caiff y deunyddiau eu hanfon at fasnachwyr neu broseswyr i'w trin.
- ▶ Agorwyd Parc Ailgylchu ar lefelau gwahân ym Maes-glas yn 2005 i wella'r ddarpariaeth sydd ohoni yng ngogledd orllewin y sir.
- ▶ Cyflawni targedau'r Parc Ailgylchu, gyda gwelliant o 40% yn 2006 i 62% yn ystod 2008.
- ▶ Sefydlu Tîm Gorfodi pwrpasol i ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon, materion dyletswydd gofal a cherbydau sy'n cael eu gadael.
- ▶ Prynu trelar ymgyrchu wedi'i addasu'n arbennig i hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy er mwyn codi ymwybyddiaeth y gymuned.
- ▶ Cyflwyno mesurau fel bod y Cyngor ei hun yn cynhyrchu llai o wastraff, a chynyddu ailgylchu a chompostio gan weithwyr y Cyngor.
- ▶ Cyflwyno dull Ardaloedd Chwilio newydd o fewn y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) sy'n darparu fframwaith penderfynu mwy cadarnhaol ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn y sir.
- ▶ Mae'r adolygiad cyntaf o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol wedi'i gwblhau (2008).
- ▶ Penodi Cyfarwyddwr Prosiect Rhanbarthol i fynd â Phrosiect Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ei flaen.

5.2 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi rhoi amrywiaeth o newidiadau pwysig i'w wasanaethau gwastraff ar waith ac mae'n ymwybodol o'r heriau strategol y mae'n eu hwynebu o ran lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Er enghraifft, dengys dadansoddiad o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu fod cyfleoedd allweddol i arallgyfeirio ffrydiau gwastraff allweddol megis gwastraff cegin, draw o safleoedd tirlenwi. Gellir gweld crynodeb o ddarganfyddiadau allweddol yr astudiaeth Dadansoddiad Cyfansoddiad Gwastraff cenedlaethol a gynhaliwyd gan Eunomia yn Atodiad Technegol 4.

5.3 Mae ffigwr 7 isod yn dangos gwir swm y gwastraff a ddeilliodd o Sir y Fflint hyd at 2008/09 ac yna mae'n taflunio'r gwastraff yma ar sail twf tybiannol yn y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn gyfwerth ag 1% bob blwyddyn. Caiff y rhagamcaniadau hyn o'r cynnydd mewn cynhyrchu gwastraff eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau bod rhagamcaniadau yn gywir ac yn adlewyrchu tueddiadau a nodwyd o ddata diweddar.

Ffigwr 7 | Gwastraff trefol Sir y Fflint 2002-20



5.4 Mae'r gwastraff trefol a ddangosir yn y tabl uchod yn cynrychioli cyfanswm y gwastraff a gasglwyd. Mae swm gwirioneddol y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi gryn dipyn yn llai a chaiff ei effeithio i raddau helaeth gan y swm o wastraff a gynhyrchir, sy'n tueddu i amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, a'r swm o wastraff y gellir ei arallgyfeirio o safleoedd tirlenwi trwy ailgylchu a chompostio. Mae Ffigwr8 isod yn dangos bod Cyngor Sir y Fflint wedi perfformio'n dda o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.


Ffigwr 8 | Cyfraddau ailgylchu/compostio trefol Sir y Fflint

	2001/ 02	2002/ 03	2003/ 04	2004/ 05	2005/ 06	2006/ 07	2007/ 08
Sir y Fflint	8.5%	18.4%	22.3%	21.6%	32.1%	28%	36.9%
Cyfartaledd Cymru	8.4%	12.5%	17.7%	21.7%	25.5%	29.9%	33.6%

Ffynhonnell: Municipal Waste Management Report for Wales, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-2008 (2008)

5.5 Gan ganolbwyntio ar y gwastraff hwnnw a anfonwyd i safleoedd tirlenwi ers 2002 yn unig (gweler Atodiad Technegol 5) a'r swm o wastraff a ragamcener hyd at 2020 yn Ffigwr 6 a chan ddefnyddio'r data a gynhwysir yn Ffigwr 1, mae modd rhagweld pryd y bydd Cyngor Sir y Fflint yn dod yn destun cosbau ariannol o dan y Cynllun Lwfans Tirlenwi. Mae Ffigwr 8 yn dangos ei bod yn bosib, yn ddamcaniaethol a chan ddiystyru ffactorau eraill, oni bai y gwneir cynnydd sylweddol i leihau gwastraff tirlenwi, y bydd y Cyngor Sir yn destun cosbau ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol Ebrill 2011 i Ebrill 2012. Mae'n bwysig nodi bod y cosbau ariannol hyn yn rhai cronrus ac y byddent yn ddyledus bob blwyddyn y byddai Cyngor Sir y Fflint yn anfon mwy o wastraff i'w dirlenwi na'r hyn a ganiateid yn lwfans y Cynllun Lwfans Tirlenwi.

Ffigwr 9 | Rhagamcan o wastraff tirlenwi a'r cynllun lwfans tirlenwi



5.6 Eisoes yn y Strategaeth hon, am bob tunnell o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi uwchlaw lwfans y Cynllun Lwfans Tirlenwi, nodwyd y byddai'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint dalu dirwy o £200 yn ychwanegol at gostau gwaredu arferol. Mae Ffigwr 9 yn dangos posibilrwydd y gallai rhyw 5,000 tunnell yn fwy o Wastraff Dinesig Biodiraddadwy gael ei anfon i safleoedd tirlenwi nag y byddai'r Cynllun Lwfans Tirlenwi yn ei ganiatáu yn 2010/11. Mae'n bwysig nodi y gallai mynd drosodd o ryw 5,000 tunnell yn 2010/11 arwain at ddirwy o £1,000,000. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn dderbyniol i drethdalwyr Sir y Fflint a dylid ei hosgoi trwy weithredu amrywiaeth o gynlluniau a mesurau, a ddisgrifir yn y Strategaeth hon.

6.0 | Rhoi Newid ar Waith

6.1 Wrth roi newidiadau cadarnhaol a buddiol ar waith a fydd yn helpu'r Awdurdod hwn i osgoi cosbau ariannol, mae angen ystyried sut y dylai Cyngor Sir y Fflint fod yn blaenoriaethu ei ymdrechion. I'r perwyl hwn mae'n bwysig ystyried y diagram isod sy'n dangos mai'r opsiwn amgylcheddol gorau yw osgoi cynhyrchu gwastraff cyn ystyried sut y gellir aildddefnyddio, ailgylchu/compostio, defnyddio a gwaredu gwastraff. Er mai ar atal gwastraff y bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf, fodd bynnag, derbynnir nad yw cynhyrchu "Dim Gwastraff" yn darged realistig ar gyfer y ddogfen Strategaeth hon ac y bydd angen safleoedd gwaredu gwastraff hyd y gellir ei ragweld yn y dyfodol.

Ffigwr 10 | Yr hierarchaeth wastraff

Dyma ganllaw sy'n ceisio dangos sut y dylem fod yn blaenoriaethu ein hymdrechion i leihau gwastraff:



6.2 Wrth ystyried yr Hierarchaeth Wastraff mae'n hanfodol fod y Strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd hysbysu'r gymuned ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned er mwyn cynyddu dealltwriaeth o reoli gwastraff. Annog newid yn ymddygiad trigolion Sir y Fflint yw ein prif nod, fel eu bod yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn ailgylchu a chompostio mwy. Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhedeg amryw o wahanol wasanaethau casglu o ymyl y ffordd ar hyn o bryd ond mae potensial i gynyddu cyfranogiad y gymuned yn y cynlluniau hyn yn sylweddol. Trwy gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth byddai'r Cyngor yn ceisio cynyddu cyfranogiad y cyhoedd a sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

6.3 Yn y Strategaeth hon mae'r Cyngor yn cynnig nifer o wahanol gynlluniau i gynhyrchu llai o wastraff ac arallgyfeirio gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu o safleoedd tirlenwi. Gellir dosbarthu'r cynlluniau a nodwyd yn fras yn yr un ffordd â'r Hierarchaeth Wastraff uchod a chânt eu trafod yn yr adrannau canlynol o dan y teitlau "Lleihau/Ailddefnyddio", "Ailgylchu", "Adennill", a "Gwaredu". Mae Atodiad Technegol 6 yn cynnwys llawer mwy o fanylion ynglŷn â'r ffordd y bydd Cyngor Sir y Fflint, a'i sefydliadau partner, yn datblygu cynlluniau. Yn Atodiad Technegol 7 gellir dod o hyd i dull Cyngor Sir y Fflint o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd.

Lleihau / Ailddefnyddio

- 6.4** Lleihau gwastraff yw blaenoriaeth gyntaf yr hierarchaeth wastraff ac mae hefyd yn faes lle gall y gymuned gyfan weithio i wneud gwahaniaeth. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol allweddol (megis y Cynllun Craff am Wastraff) i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall unigolion, cymunedau a busnesau wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Ymysg y cynlluniau mae hyrwyddo prynu a Defnyddio Biniau Compost Cartref; lleihau post sothach; lleihau pecynnau diangen ar nwyddau; ac annog pobl i brynu nwyddau y gellir eu hailddefnyddio ac osgoi defnyddio bagiau tafladwy.
- 6.5** Mae'r Cyngor, wrth hyrwyddo cynhyrchu llai o wastraff, wedi cymryd camau i arwain y ffordd a gosod esiampl briodol i bawb ei dilyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynhyrchu llai o wastraff a bydd yn canolbwyntio ar gaffael gwyrdd sy'n cynnwys asesu cylch bywyd y cynnyrch a phrynu nwyddau wedi'u gwneud o ddeunyddiau a ailgylchwyd.
- 6.6** Ceir crynodeb o'r camau y mae'r Cyngor yn eu hargymell i gynhyrchu llai o wastraff yn Ffigwr 10.

Ailgylchu

- 6.7** Ystyr ailgylchu yw ailbroseu gwastraff, naill ai i'r un cynnyrch neu i gynnyrch gwahanol. Mae ailgylchu yn lleihau'r galw am ddeunyddiau crai, gan leihau effaith echdynnu a chcludiant ar yr amgylchedd. Mae ailgylchu yn defnyddio llai o ynni na chynhyrchu nwyddau o ddeunyddiau nas defnyddiwyd o'r blaen ac yn creu llai o allyriadau hefyd. Mae llosgi tanwydd ffosil i greu ynni yn cynhyrchu carbon deuocsid, nwy tŷ gwyrdd sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang, felly mae defnyddio llai o ynni yn hanfodol er mwyn lleihau ein ôl-troed Carbon ac Ecolegol.
- 6.8** O archwilio cyfansoddiad gwastraff domestig (gweler Atodiad Technegol 4) mae potensial i ailgylchu 30% o wastraff trefol. Gellir compostio 30% yn ychwanegol o groen llysiâu a gwastraff organig arall hefyd. Yn ôl pob golwg, felly, gellir arallgyfeirio 60% o'n gwastraff o safleoedd tirlenwi, ond yn 2008/09, fodd bynnag, dim ond 37% o wastraff trefol a ailgylchwyd ac a gompostiwyd yn Sir y Fflint. Mae dadansoddiad o ddata casglu o ymyl y ffordd yn awgrymu bod potensial sylweddol i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu a chompostio. Bydd y Cyngor yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn cynlluniau ymyl y ffordd a chynlluniau eraill yn cynnwys 'safleoedd danfon' cymunedol. Yn y cyfamser bydd y Cyngor yn parhau i osod y safon trwy gynhyrchu llai o wastraff, ac ailgylchu / compostio pryd bynnag y bo modd, y gwastraff hwnnw sy'n cael ei gynhyrchu ganddo.
- 6.9** Yn ôl targed ailgylchu gwastraff bwyd Llywodraeth y Cynulliad o 12% yn 2012/13 (gweler Tabl 2) mae'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint gyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff bwyd newydd a threfnu i drin y math yma o wastraff ar wahân. Yn 2008/09 manteisiodd Sir y Fflint, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, ar £605,066 o'r Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol a oedd ar gael i gaffael 65,000 o gadis cegin 7 litr a 25 litr a sachau y gellir eu compostio. Mae Sir y Fflint hefyd yn gweithio'n rhanbarthol gyda Chonwy a Sir Ddinbych i ddatblygu Cyfleusterau Treulio Anaerobig lle gellir trin gwastraff bwyd er mwyn cynhyrchu compost a biodanwydd y gellir ei werthu ar y farchnad. Rhagwelir mai Ebrill 2012 fydd dyddiad comisiynu'r cyfleuster hwn.
- 6.10** Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn adolygu ac yn gwella ei wasanaethau cyhoeddus drwy'r amser yn cynnwys creu tîm gorfodi tipio anghyfreithiol a gadael cerbydau a chynyddu effeithlonrwydd yn yr 8 parc ailgylchu sydd yn y sir.
- 6.11** Yn y dyfodol bydd y Cyngor yn ystyried yr opsiynau allweddol canlynol:
- ▶ Didoli wrth ymyl y ffordd o'i gymharu â chasgliadau cymysg
Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ailgylchu, a chynyddu cyfraddau cymryd rhan, bydd angen adolygu'r ffordd rydym yn casglu ein deunyddiau ailgylchu. Mae awdurdodau sydd wedi cyflwyno system o gasglu deunydd ailgylchu cymysg wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n cymryd rhan. Dewis arall yw parhau i ddidoli wrth ymyl y ffordd a chynyddu casgliadau ailgylchu o bob pythefnos i bob wythnos. Bydd newidiadau fel y rhain

yn sicrhau bod ailgylchu yn dod yn arfer safonol ac yn cymryd blaenoriaeth dros gasglu gwastraff gweddilliol.

► Casgliadau Wythnosol wedi'u Rheoli

Os cyflwynir casgliadau gwastraff bwyd wythnosol, bydd llai o wastraff yn y sachau du sy'n weddill, felly byddai ailystyried y patrymau casglu yn sicrhau gwerth gorau ac yn darparu ateb cynaliadwy. Un posibilrwydd fyddai casglu gwastraff gweddilliol un wythnos, a chasglu'r bin brown gwastraff gwyrdd ar yr un diwrnod yr wythnos ganlynol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cwrdd â'r targedau ailgylchu a helpu Cyngor Sir y Fflint i osgoi cosbau'r Cynllun Lwfans Tirlenwi a ddisgrifir yn adran 2.3. Mae Awdurdodau Lleol eraill sydd wedi cyflwyno hyn wedi gweld cynnydd o 10% yn eu perfformiad ailgylchu.

► Pwyso gwastraff gweddilliol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i leihau gwastraff o gartrefi ac mae hyn yn cynnwys targedau cynhyrchu gwastraff blynyddol ar gyfer pob unigolyn (er enghraifft, 295kg yn 2012/13 yn gostwng i 150kg erbyn 2024/25). Er mwyn cyrraedd y targedau, mater i'w ystyried yn y dyfodol fydd a ddylid cyflwyno cynllun o Godi Tân Uniongyrchol ac Amrywiol / Talu wrth Daflu yn genedlaethol neu'n lleol.

6.12 Ceir crynodeb o gamau gweithredu arfaethedig y Cyngor i ailgylchu/compostio gwastraff yn Ffigwr 10.

Adfer

6.13 Ni ddylid cael gwared ar wastraff trefol na ellir ei aildefnyddio neu ei ailgylchu mewn safleoedd tirlenwi os gellir defnyddio'r gwastraff mewn dulliau cadarnhaol a buddiol eraill. Enghreifftiau o adennill gwerth gwastraff yw'r defnydd o nwy tirlenwi mewn safleoedd tirlenwi presennol yn y sir a'r Cyfleuster Adennill Deunyddiau ym Mwcle. Yr enghraifft orau o adennill gwerth gwastraff, fodd bynnag, yw'r Cyfleusterau Treulio Anaerobig yng Ngogledd Cymru a fydd yn trin gwastraff bwyd ac yn cynhyrchu compost a bio-nwy, sydd ill dau'n nwyddau y gellir eu gwerthu ar y farchnad. Bydd ymdrechion i adennill gwerth o wastraff yn golygu bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi; yn helpu Sir y Fflint i gyflawni ei dargedau ac osgoi cosbau ariannol; ac yn gwella perfformiad amgylcheddol cyffredinol Sir y Fflint.

6.14 O ystyried y gwahanol dechnolegau y gellid eu defnyddio i adennill gwerth o wastraff, derbynnir gan lawer ar draws Gogledd Cymru fod angen i Awdurdodau Lleol weithio mewn partneriaeth. Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Arweiniol ar Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gaffael technoleg gwastraff gweddilliol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Bartneriaeth yn ystyried amrywiaeth o dechnolegau ar gyfer trin gwastraff gweddilliol, yn cynnwys y canlynol:

- Triniaeth Fiolegol Fecanyddol
- Triniaeth Gwres Mecanyddol
- Gwastraff i Ynni
- Gwres a Phŵer Cyfun
- Triniaeth Thermol Uwch

6.15 Ceir crynodeb o gamau gweithredu arfaethedig y Cyngor i adennill gwerth o wastraff yn Ffigwr 11.

Gwaredu

- 6.16** Un o brif amcanion y strategaeth hon yw osgoi mynd â gwastraff i safleoedd tirlenwi. Gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yw opsiwn olaf yr Hierarchaeth Wastraff; dyma hefyd yr opsiwn sy'n golygu, os caiff ei defnyddio amlaf, y bydd Sir y Fflint yn methu â chwrdd â'r targedau a nodir yn y Cynllun Lwfans Tirlenwi. Felly mae'n bwysig fod Sir y Fflint yn ymdrechu'n barhaus i leihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- 6.17** Hyd yn ddiweddar bu Cyngor Sir y Fflint yn gwaredu ei wastraff yn safle Tirlenwi Brookhill. Cafodd hwn ei gau ym mis Rhagfyr 2007, fodd bynnag, heb adael unrhyw gyfleusterau amgen yn Sir y Fflint. Ar hyn o bryd caiff gwastraff trefol gweddilliol Sir y Fflint ei fynu gan ddefnyddio pad trosglwyddo yn Brookhill fel bod angen cyn lleied â phosib o deithiau cerbyd, ac yn cael eu cludo allan o'r sir ar y ffordd i safle tirlenwi yn Wrecsam.
- 6.18** Er mai un o brif amcanion y Strategaeth hon yw lleihau gwastraff trefol sy'n cael ei dirlenwi mae'n amlwg o'n perfformiad presennol fod angen cyfleusterau tirlenwi o hyd ac y bydd eu hangen hyd y gellir ei ragweld i'r dyfodol. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i adolygu cyfleoedd tirlenwi o fewn Sir y Fflint gan ystyried costau ariannol ac amgylcheddol cludo gwastraff allan o'r sir. Yn y cyfamser bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio'n agos gyda'i bartneriaid rhanbarthol trwy grwpiau megis Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i ddatblygu rhwydwaith rhanbarthol o gyfleusterau rheoli gwastraff a fydd yn cynyddu'r gyfran o wastraff sy'n cael ei hailgylchu a'i chompostio; ac yn cynyddu gwerth adennill o adnoddau gwastraff.
- 6.19** Ceir crynodeb o gamau arfaethedig y Cyngor i waredu gwastraff gweddilliol yn Ffigur 10 isod.

Ffigur 11.1 | Crynodeb o gamau'r strategaeth, Lleihau/Ailddefnyddio

Sut allwn ni sicrhau bod llai o wastraff trefol yn cael ei greu yn Sir y Fflint?

Menter	Effaith	Targed
Biniau Compost Cartref <ul style="list-style-type: none"> ▶ ymgyrchoedd hyrwyddo ▶ cystadlaethau ▶ hysbysebu 	Isel	Tymor byr 2009-11
Codi ymwybyddiaeth trwy guro ar ddrysau <ul style="list-style-type: none"> ▶ sut i leihau, aildefnyddio, ailgylchu, compostio gwastraff yn y cartref ▶ rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau lleol 	Isel	Tymor byr 2009-11
Cynlluniau Ailddefnyddio ac Atgyweirio Adfer ac atgyweirio dodrefn a nwyddau gwyn	Canolig	Tymor byr 2009-11
Clytiau babi go iawn <ul style="list-style-type: none"> ▶ hyrwyddo'r defnydd o glytiau babi y gellir eu haildefnyddio (bydwragedd, clinigau ac ati) ▶ Cynllun cymhelliant talebau (cymorth ariannol) 	Isel	Tymor canolig 2009-15
Conau Gwyrdd (fel Biniau Compost Cartref)	Isel	Tymor canolig 2009-15

Caffael <ul style="list-style-type: none"> ▶ lleihau gwastraff y Cyngor ei hun yw'r nod ▶ gweithio gyda'r adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i ddarparu gwybodaeth ar sut i argraffu ar ddwy ochr ac ati ▶ prynu deunyddiau wedi'u hailgylchu / o ffynonellau cynaliadwy ▶ gosod y safon y fewnol 	Isel	Tymor canolig 2009-15
Gweithio gyda chynhyrchwyr/gweithgynhyrchwyr <ul style="list-style-type: none"> ▶ hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy ▶ hyrwyddo'r ddyletswydd gofal ▶ Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru /CLILC/ Envirowise 	Isel	Tymor hir 2009-20

Ffigur 11.2 | Crynodeb o gamau'r strategaeth, Ailgylchu

Sut allwn ni gynyddu cyfleoedd i ailgylchu yn Sir y Fflint?

Menter	Effaith	Targed
Cardfwrdd ar ymyl y ffordd Cwblhawyd ei gyflwyno gam wrth gam	Uchel	Tymor byr 2009
Gwasanaeth Ailgylchu Sector Cyhoeddus a Mewnol	Isel	Tymor byr 2009-11
Cyfraddau cymryd rhan Pennwyd mai 55% erbyn 2009/10 yw'r targed isaf	Uchel	Tymor byr 2009-11
Ymgyrchoedd curo ar ddrysau i chwalu rhwystrau	Uchel	Tymor byr 2009-11
Gwelliannau i Barciau Danfon ac Ailgylchu <ul style="list-style-type: none"> ▶ Adolygu darpariaeth safleoedd danfon ▶ Mabwysiadu cyfleusterau gan y gymuned ▶ Cyfarfod a Chyfarch mewn safleoedd mwy 	Uchel	Tymor canolig 2009-15
Casgliadau gwastraff bwyd Casgliadau wythnosol	Uchel	Tymor byr- canolig 2009-15
Ailgylchu Wythnosol Bag Blas – Papur a chardfwrdd Bocs Glas – Poteli/potiau gwydr, caniau/tuniau a photeli plastig	Uchel	Tymor canolig 2009-15
Casgliadau Wythnosol wedi'u Rheoli (Gwyrdd a Gweddilliol) <ul style="list-style-type: none"> ▶ Dim ond gyda Chasgliadau Bwyd wythnosol ▶ 10% yw'r cynnydd cyfartalog yn y Gyfradd Ailgylchu ar ôl ei gyflwyno 	Uchel	Tymor canolig 2009-15
Cadw gwasanaethau yn syml ac effeithlon a darparu gwasanaeth casglu dibynadwy <ul style="list-style-type: none"> ▶ Casgliadau ar yr un diwrnod ▶ Darparu gwerth gorau 	Canolig/ Isel	Tymor canolig- hir 2009-20
Datblygu cyfleoedd marchnad lleol ar gyfer deunyddiau eraill	Isel	Tymor hir 2009-20

Gorfodaeth <ul style="list-style-type: none"> ▶ Taflu sbwriel yn anghyfreithlon ▶ Cerbydau wedi'u Gadael 	Isel	Tymor hir 2009-20
Pwysu gwastraff gweddilliol <ul style="list-style-type: none"> ▶ Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud hyn yn statudol – mae ymchwil wedi dangos bod angen cynllun Talu wrth Daflu ▶ Gwastraff masnach ▶ Cysylltiadau â'r targed lleihau gwastraff a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru 	Canolig	Tymor hir 2009-20

Ffigwr 11.3 | Crynodeb o gamau'r strategaeth, Adennill

Sut allwn ni gynyddu cyfleoedd adennill ac ynni ym mhob ffrwd wastraff a lleihau ein hól-troed carbon?

Menter	Effaith	Targed
Cyfleuster Treulio Anaerobig i drin gwastraff bwyd <ul style="list-style-type: none"> ▶ Deunydd wedi'i dreulio – gellir ei ddefnyddio fel bio-wrtaith ▶ Gellir gwerthu bio-nwy (carbon deuocsid a methan yn bennaf) fel biodanwydd neu ei losgi i gynhyrchu trydan sy'n gymwys ar gyfer Tystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy) sy'n gymhelliant ariannol. 	Uchel	Tymor byr- canolig 2009-15
Cyfleuster Adennill Deunyddiau <ul style="list-style-type: none"> ▶ Cynyddu cymaint â phosib o unrhyw ddeunydd y gellir ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. ▶ Ar hyn o bryd caiff sgiopiau gwastraff cyffredinol o'r Parciau Ailgylchu eu didoli i adennill unrhyw ddeunyddiau y mae modd eu haildefnyddio. 	Uchel	Tymor byr- canolig 2009-15
Trin Gwastraff Gweddilliol (Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) <ul style="list-style-type: none"> ▶ Adennill cymaint â phosib o ddeunyddiau o'r ffrwd wastraff ▶ Cynhyrchu ffynhonnell ynni amgen/gynaliadwy 	Uchel	Tymor hir 2009-20
Dal Nwy Tirlenwi ar unrhyw safleoedd yn y dyfodol Eisoes yn digwydd yn Brookhill ac ar safleoedd Tirlenwi Safonol	Canolig	Tymor canolig 2006-15

Ffigwr 11.4 | Crynodeb o gamau'r strategaeth, Gwaredu

Sut allwn ni sicrhau bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi?

Menter	Effaith	Targed
Trwy sicrhau bod yr holl fentrau uchod yn cael eu gweithredu. Rheoli'r deunyddiau sy'n dal yn y ffrwd wastraff ar ôl lleihau gwastraff yw'r nod; mae mentrau aildefnyddio ac ailgylchu wedi digwydd mewn modd cynaliadwy.	Uchel	Tymor hir 2009-20
Trin gwastraff ymlaen llaw yn y Cyfleuster Adennill Deunyddiau	Uchel	Tymor canolig 2009-15
Triniaethau Gwastraff Bwyd Partneriaeth Isranbarthol – Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy	Uchel	Tymor byr- canolig 2009-15

<p>Trin Gwastraff Gweddilliol i adennill cymaint â phosib o adnoddau o'r ffrwd wastraff</p> <p>Partneriaeth Ranbarthol – Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru – Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn</p>	<p>Uchel</p>	<p>Tymor canolig-hir 2009-20</p>
<p>Bydd angen cyfleusterau tirlenwi o hyd yn y dyfodol, ar gyfer unrhyw wastraff na ellir ei ailgylchu na'i adennill, dim ond fel rhan o rwydwaith mwy cynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff</p>	<p>Canolig</p>	<p>Trwy gydol cyfnod y strategaeth</p>

7.0 | Cyflwyno ac Adolygu'r Strategaeth

- 7.1** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i wella ei wasanaethau yn barhaus er mwyn cwrdd â thargedau cenedlaethol a gwella ei berfformiad amgylcheddol presennol. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio cyfleoedd adolygiadau gwerth gorau blynyddol, monitro ac adolygu mewnol, ynghyd â monitro ac adroddiadau gwastraff allanol i sicrhau bod ei wasanaethau gwastraff yn parhau i wella, yn effeithlon, yn ymatebol ac yn gost-effeithiol.
- 7.2** Bydd y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad blynyddol o'r strategaeth hon ac yn diweddarau'r data a'r wybodaeth a gynhwysir ynddi i adlewyrchu'r data diweddaraf yn adroddiadau'r system adrodd genedlaethol WasteDataFlow. Bydd yr adolygiad blynyddol o'r strategaeth yn dangos a lwyddodd Cyngor Sir y Fflint i gyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ai peidio, ac yn rhoi cyfle i addasu ei ragamcaniadau bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu data a gwybodaeth ddiweddar. Os yw'n amlwg bod risg resymol o gosbau ariannol bydd Cyngor Sir y Fflint yn dweud hynny yn y strategaeth ac yn datgan pa fesurau adfer blaenoriaeth sydd eu hangen fel mater o frys.
- 7.3** Bydd Cyngor Sir y Fflint hefyd yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid rhanbarthol. Mae'n amlwg o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (2004) a'r Adolygiad Cyntaf ohono (2008) fod cryn botensial ar gyfer gweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau gwastraff trefol er mwyn cynllunio sut i drin a gwaredu gwastraff gweddilliol yn well. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried gan Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn cynnwys amrywiaeth o dechnolegau newydd a drud y gallai fod yn anodd i unrhyw Awdurdod Lleol fynd ar eu trywydd yn unigol. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau cyfleusterau rheoli gwastraff newydd a all wasanaethu anghenion gwastraff rhanbarth Gogledd Cymru.
- 7.4** Bydd Cyngor Sir y Fflint yn manteisio ar bob cyfle priodol i wella ac ehangu'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau rheoli gwastraff (yn rhai cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd) er mwyn cynyddu gallu'r diwydiant hwn i drin gwastraff ac arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. I'r perwyl hwn bydd swyddogion rheoli gwastraff yn gweithio'n agos gyda swyddogion cynllunio gwastraff i nodi'r cyfleoedd gwastraff priodol yn y sir yn ogystal â cheisio sefydlu trefniadau partneriaeth gyda chwmnïau masnachol profiadol. Yn ogystal â hynny defnyddir y cyfle sy'n deillio o gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol newydd fel sail ar gyfer adolygiadau o'r strategaeth hon yn y dyfodol yn ogystal â dylanwadu ar strategaeth defnydd tir gwastraff y sir a'i pholisïau ategol.

Geirfa

Egwyddor ragofalus	defnyddir hon gan lunwyr penderfyniadau i reoli risg. Dylid bod yn rhagofalus pan fydd tystiolaeth wyddonol yn annigonol, yn amhendant neu'n ansicr a lle mae'r gwerthusiadau gwyddonol gwrthrychol cychwynnol yn awgrymu bod rhesymau teg dros boeni y gallai'r effeithiau peryglus posibl ar yr amgylchedd, ar iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion fod yn anghyson â'r lefel warchodaeth a ddewiswyd (ceir rhagor o arweiniad yn y ddogfen 'Gwybodaeth gan y Comisiwn ynglŷn â'r Egwyddor Ragofalus')
Agregau	deunyddiau a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu: mae agregau sylfaenol yn cynnwys tywod, graean, a chraig fâl; deunyddiau gwastraff yw agregau eilaidd (e.e. gwastraff dymchwel) sy'n cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu gan y diwydiant adeiladu yn lle agregau sylfaenol.
Ailddefnyddio	Defnyddio cynnyrch eto at yr un diben neu at ddiben gwahanol. Yn aml, mae modd ailddefnyddio dodrefn a rhai nwyddau trydan ac mae llawer o grwpiau yn y gymuned a grwpiau'r sector gwirfoddol yn ymwneud yn frwd â hwylyso ailddefnyddio nwyddau o'r fath. Gellir gwneud hyn yn y sector masnachol drwy ddefnyddio nwyddau sydd wedi'u dylunio i'w defnyddio sawl tro, megis pecynnu y gellir ei ailddefnyddio. Gall deiliaid tai brynu nwyddau sy'n defnyddio cynwysyddion y gellir eu hail-lenwi, neu ailddefnyddio bagiau plastig. Mae'r prosesau'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gallant arbed costau deunyddiau, ynni a chlodiant.
Ailgylchu	mae hyn yn cynnwys ailbrosesu gwastraff, naill ai drwy gynhyrchu'r un cynnyrch eto neu gynnyrch gwahanol. Mae modd ailgylchu llawer o fathau o wastraff diwydiannol nad ydynt yn beryglus, megis papur, gwydr, cardfwrdd, plastigau a metelau sgrap. Gall cwmnïau arbenigol ailgylchu mathau arbennig o wastraff megis toddyddion hefyd, neu gellir gwneud hynny gydag offer mewnol.
Ailgylchu drwy ddanfôn gwastraff	cynlluniau ailgylchu lle bydd y cyhoedd yn dod â deunyddiau i'w hailgylchu i fannau canolog (e.e. banciau ar gyfer potel a chaniau) mewn safleoedd amwynder dinesig, meysydd parcio archfarchnadoedd a lleoliadau tebyg.
Bioddiraddadwy	deunyddiau y gellir eu dadfeilio gan blanhigion (gan gynnwys ffwng) ac anifeiliaid (gan gynnwys pryfed genwair a micro-organebau). Mewn gwastraff solet trefol, fel rheol defnyddir y briodwedd hon ar gyfer y ffracsiynau canlynol: papur a cherdyn, bwyd a gwastraff gerddi a chyfran o decstiliau, mân wastraff adeiladu a gwastraff hylosg amrywiol, gan gynnwys clytiau parod.
Caffael gwyrdd	Sicrhau bod ffactorau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau gan integreiddio hynny â meini prawf eraill, gan gynnwys perfformiad, disgwyliad oes, ansawdd a chost. Dylai contractau caffael y sector cyhoeddus gynnwys prynu cynnyrch hir-oes a chynnyrch sy'n defnyddio ynni'n ddarbodus, defnyddio cyn lleied o becynnu ag y bo modd, ailddefnyddio cynnyrch a phrynu cynnyrch sy'n cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu (e.e. papur, plastigau a chompost).
Canolfannau Ailgylchu	Gweler safleoedd Safleoedd Amwynder Dinesig
Casglu ar wahân	cynlluniau o ddrws i ddrws lle bydd deunyddiau i'w hailgylchu'n cael eu casglu naill ai gan gerbyd ar wahân neu ar adeg wahanol i'r casgliad gwastraff arferol o aelwydydd.

Compostio	dadfeilio biolegol a sefydlogi is-haenau organig mewn ffordd sy'n cael ei rheoli (e.e. gwastraff gerddi a cheginau), dan amodau sy'n aerobig yn bennaf ac sy'n caniatáu i dymereddau thermoffilig ddatblygu yn sgil cynhyrchu gwres drwy ddulliau biolegol. Mae'n arwain at gynnyrch terfynol sydd wedi'i buro a'i sefydlogi, mae'n gyforiog o sylweddau hwmig sydd o safon ddigon da i'w defnyddio i wella'r pridd, fel cynhwysyn mewn cyfrwng tyfu, neu i'w gymysgu i gynhyrchu cynnyrch arall y gellir ei farchnata (sy'n cyrraedd safonau cydnabyddedig diwydiant). Mewn abwydfeydd, mae modd anghofio am y tymereddau thermoffilig hyn pan gyflwynir y mwydod.
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	mae hon yn cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol unedig a'i phwrpas yw gwasanaethu ei haelodau a hybu democratiaeth leol.
Cynllun Datblygu Lleol	y Cynllun hwn yw'r genhedlaeth nesaf o gynlluniau datblygu defnydd tir sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yng Nghymru. Yn y poen draw bydd y CDLI yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (gweler Geirfa) fel y brif ddogfen ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chynigion datblygu ffurfiol (hy ceisiadau cynllunio).
Cynllun Datblygu Unedol	cynllun ar gyfer defnydd tir yn ardal yr awdurdod unedol yw hwn a llywio penderfynu ar gynigion ffurfiol ar gyfer datblygu. Yn Sir y Fflint nid yw'r CDU wedi ei fabwysiadu eto ond mae ar hyn o bryd yn y camau terfynol. Rhagwelir y bydd y cynllun wedi cael ei fabwysiadu erbyn 2010/11.
Cynlluniau gwastraff rhanbarthol	paratoir y rhain gan 'drefniadau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol' o fewn yr un rhanbarth ac maent yn mynd i'r afael â'r rhestr meini prawf gynhwysfawr a geir yn TAN 21. Y Cynllun Gwastraff ar gyfer Gogledd Cymru yw Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2004) a gafodd ei adolygu a'i ddiwygio yn 2008 (Adolygiad Cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru).
Datblygu cynaliadwy	datblygu sy'n gynaliadwy yw datblygu sy'n gallu diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau (BPEO)	canlyniad gweithdrefn benderfynu systematig ac ymgynghorol sy'n pwysleisio gwarchod ac amddiffyn yr amgylchedd ar y tir, yn yr aer ac yn y dŵr. Mae'r weithdrefn hon yn sefydlu, ar gyfer set o amcanion, y dewis sy'n cynnig y manteision mwyaf neu'n peri'r difrod lleiaf i'r amgylchedd drwyddo draw, am gost derbyniol, yn y tymor hir yn ogystal ag yn y tymor byr.
Egwyddor agosrwydd	mae hyn yn mynnu y dylid fel rheol gwaredu gwastraff mor agos ag y bo modd at y man lle'i cynhyrchwyd.
Gwastraff	yn ôl diffiniad Cyfarwyddeb y Cyngor 75/442/CEE, ystyr gwastraff yw "..... unrhyw sylwedd neu wrthrych yn y categorïau a geir yn Atodiad I y mae'r deiliad yn eu taflu neu'n bwriadu ei daflu neu fod gofyn iddo'i daflu." Mae Atodiad I y Gyfarwyddeb yn rhestru 16 categori o wastraff gan gynnwys gwastraff 'amaethyddol, aelwydydd, swyddfeydd, masnachol a siopau'. Gelwir gwastraff sy'n cael ei ddiffinio yn y Gyfarwyddeb yn 'Wastraff y Gyfarwyddeb'.
Gwastraff a gynhyrchir	faint o wastraff a gynhyrchir mewn ardal benodol dros gyfnod penodol.
Gwastraff adeiladu a dymchwel	daw hwn yn sgil gwaith adeiladu, trwsio, cynnal a chadw a dymchwel adeiladau a strwythurau. Mae'n cynnwys y canlynol yn bennaf: brics, concrit, craidd caled, isbridd ac uwchbridd, ond gall hefyd gynnwys coed, metel, plastigau ac weithiau deunyddiau gwastraff arbennig (perylus).
Gwastraff aelwydydd	mae hyn yn cynnwys gwastraff a gesglir o aelwydydd, yn sgil glanhau'r strydoedd, casglu gwastraff swmpus, casglu sbwriel, casglu gwastraff peryglus o aelwydydd a chasglu gwastraff gerddi ar wahân. Mae hefyd yn cynnwys gwastraff o safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir ar wahân ar gyfer ailgylchu neu gompostio drwy gynlluniau danfon gwastraff, cynlluniau o ddrws i ddrws ac mewn 'safleoedd amwynder dinesig'.

Gwastraff anadweithiol	gwastraff nad yw, o'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff, yn newid yn sylweddol o safbwynt ffisegol, cemegol neu fiolegol ac sy'n cydymffurfio â'r meini prawf a geir yn Atodiad III Cyfarwyddyd Tirlenwi Gwastraff y Gymuned Ewropeaidd.
Gwastraff arbennig	mae Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio gwastraff arbennig fel hyn: "...Gwastraff ar y Rhestr Gwastraff Peryglus sy'n dangos priodweddau peryglus; ac unrhyw wastraff rheoledig arall sy'n dangos priodweddau diffiniedig (e.e. gwastraff sy'n achosi lliid) a meddyginiaethau gwastraff nad ydynt ond ar gael ar bresgripsiwn.."
Gwastraff ceginau	gwastraff bwyd bioddiraddadwy gan gynnwys pethau megis dail letys, moron, parion tatws, crwyn banana, bagiau te ac ati.
Gwastraff clinigol	gwastraff sy'n codi yn sgil arferion meddygol, nyrsio, deintyddol, milfeddygol, fferyllol neu arferion tebyg, a all beri risg haint.
Gwastraff diwydiannol	gwastraff o unrhyw ffatri ac o unrhyw eiddo lle mae diwydiant ar waith (ac eithrio gweithfeydd mwyngloddio a chwareli).
Gwastraff gweddilliol	hwn yw'r gyfran o'r gwastraff sydd ar ôl yn dilyn trin y gwastraff.
Gwastraff gwyrdd	gwastraff organig gerddi megis toriadau gwair, brigau sydd wedi'u tocio oddi ar goed, dail ac ati, y gellir eu defnyddio'n borthiant compostio. Fe'i gelwir hefyd yn 'wastraff gerddi', neu'n 'wastraff iard'. Gall y math hwn o wastraff ddod o erddi, o barciau ac o waith tirlunio.
Gwastraff masnachol	gwastraff sy'n deillio o eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio'n rhannol neu'n llwyr ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon neu adloniant, ac eithrio gwastraff diwydiannol a gwastraff o gyfleusterau trefol.
Gwastraff peryglus	y mathau mwyaf niweidiol o wastraff i bobl a'r amgylchedd, ac fe'i diffinnir yn ôl priodweddau a restrir n Atodiad III Cyfarwyddeb y Cyngor 91/689/CEE ynglŷn â gwastraff peryglus.
Gwastraff peryglus o aelwydydd	y diffiniad o'r gwastraff hwn gan y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Gwastraff Peryglus o Aelwydydd yw "... unrhyw ddeunydd sy'n cael ei daflu gan aelwyd sy'n anodd cael gwared ag ef neu sy'n peryglu iechyd pobl neu'r amgylchedd oherwydd ei natur gemegol neu fiolegol."
Gwastraff trefol	diffinnir y rhain mewn gwahanol ffyrdd. Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/CE ar dirlenwi gwastraff yn ei ddiffinio fel hyn: "...gwastraff o aelwydydd yn ogystal â gwastraff arall sydd, oherwydd ei natur neu ei gyfansoddiad, yn debyg i wastraff o aelwydydd." Yn Rhan 2 Strategaeth Gwastraff 2000, diffinnir gwastraff trefol fel hyn: "...pob math o wastraff dan reolaeth awdurdodau lleol neu asiantaethau sy'n gweithredu ar eu rhan" a dyma'r diffiniad a ddefnyddir yn Strategaeth Gwastraff Genedlaethol Cymru.
Gwres a phŵer cyfun (CHP)	ystyr hyn yw bod gwres a phŵer (trydan fel rheol) y gellir eu defnyddio yn cael eu cynhyrchu yn yr un broses. Mae'r broses hon yn defnyddio amrywiaeth o danwyddau a thechnolegau. Elfennau sylfaenol safle gwres a phŵer cyfun yw un prif symudydd neu fwy nag un (injan cilyddol, tyrbîn nwy neu dyrbin stêm) generaduron trydan sy'n gyrru, neu beirianwaith arall, lle bydd yr ager neu'r dŵr poeth a gynhyrchir yn ystod y broses yn cael ei ddefnyddio drwy gyfrwng offer adfer gwres priodol naill ai mewn prosesau diwydiannol, neu mewn cynllun gwresogi cymunedol a gwresogi gofod.

Lleihau	mae sicrhau bod cyn lleied o wastraff yn cael ei gynhyrchu ag y bo modd yn flaenoriaeth. Gellir gwneud hyn o fewn proses gweithgynhyrchu sy'n cynnwys adolygu prosesau cynhyrchu er mwyn defnyddio cymaint o ddeunyddiau crai (ac eilaidd) a phrosesau ailgylchredeg ag y bo modd. Gall fod yn gost effeithiol, o ran costau gwaredu is, llai o alw am ddeunyddiau crai a chostau ynni. Gall deiliaid tai wneud hyn eu hunain drwy gamau megis compostio gartref, aildefnyddio nwyddau a phrynu nwyddau a llai o becynnu arnynt.
Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)	fe'i gelwir yn aml yn y strategaeth yn 'Llywodraeth y Cynulliad' neu 'LICC' ac mae'n cynnwys y Cabinet, Gweinidogion a gweision sifil sy'n gweithio i'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru.
Nodyn Cyngor Technegol 21 (TAN 21)	mae 'Polisi Cynllunio Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001, yn cynnig cyngor ynglŷn â sut y dylai'r system cynllunio ar gyfer defnydd tir gyfrannu at reoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy.
Rheoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy	mae hyn yn golygu y dylid rheoli gwastraff yn y fath fodd fel nad yw'n rhoi baich cymdeithasol, economaidd nac amgylcheddol diangen nac ar genedlaethau'r presennol na chenedlaethau'r dyfodol ac sy'n sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol, gwarchodaeth effeithiol i'r amgylchedd, defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth, a chynnal twf economaidd a chyflogaeth uchel a sefydlog. Y nod yw datgysylltu cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd.
Safle amwynder dinesig / Canolfan Ailgylchu	term generig a ddefnyddir yn aml ar gyfer cyfleuster a ddarperir gan yr awdurdod lleol sy'n derbyn gwastraff aelwydydd a hwnnw fel rheol yn cael ei gludo gan y cyhoedd yn syth i'r safleoedd. Mae'r math o wastraff yr ymdrinnir ag ef yn cynnwys nwyddau swmpus megis dodrefn a gwastraff DIY, nwyddau gwynion, gwastraff gerddi a gwastraff cyffredinol aelwydydd yn ogystal â deunyddiau i'w hailgylchu. Bydd rhai safleoedd fel hyn yn cynnig cyfleusterau i dderbyn rhai mathau o wastraff peryglus o aelwydydd, e.e. batris asid plwm ac olew. Roedd y term safle amwynder dinesig yn cyfeirio'n wreiddiol at gyfleusterau a sefydlwyd dan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967, a ddiddymwyd ac a ddisodlwyd gan adran 2 Deddf Gwaredu Gwastraff (Amwynder) 1978, sydd hefyd wedi'i diddymu ers hynny. Mae'r term safle amwynder gwastraff aelwydydd (a ddefnyddir yn Papur 4 Rheoli Gwastraff) neu Ganolfan Ailgylchu yn derm mwy cywir ar gyfer cyfleusterau a ddarperir dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990. Fodd bynnag, mae 'safle amwynder dinesig' yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth.
Safle amwynder gwastraff aelwydydd	gweler Safleoedd amwynder dinesig
Safle tirlenwi	yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/CE y diffiniad a geir o dirlenwi gwastraff yw "...safle gwaredu gwastraff ar gyfer rhoi'r gwastraff ar dir neu ynddo..". Mae'r diffiniad yn cynnwys safleoedd lle mae'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff yn tirlenwi yn y man lle y cynhyrchir y gwastraff hwnnw ac unrhyw safle a sefydlir am gyfnod o flwyddyn neu fwy lle y cedwir gwastraff dros dro. Bydd safleoedd tirlenwi'n cael eu lleoli'n aml mewn hen chwareli neu safleoedd mwyngloddio lle mae'r gwaith wedi dod i ben. Weithiau, mewn ardaloedd lle nad oes llawer o geudyllau parod neu lle nad oes dim o gwbl, fe godir tomen ar y tir, a gwaredir rhywfaint o'r gwastraff neu'r cyfan ohono ar y wyneb, gan greu cyfuchliniau ar y dirwedd.
Safle trosglwyddo gwastraff	safle y cludir gwastraff iddo i'w ddioli cyn ei drosglwyddi i fan arall i'w ailgylchu, i'w drin neu i'w waredu.
Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol	paratoir hon gan bob awdurdod lleol yng Nghymru a dylai'r strategaeth hon ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â rheoli gwastraff yn ei ardal.

Treth tirlenwi treth y bwriedir iddi fynd i'r afal â chostau amgylcheddol tirlenwi drwy annog dargyfeirio'r gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi.

Treulio Anaerobig proses lle bydd deunydd biogoradwy'n cael ei annog i ddadfeilio heb ocsigen, mewn cynhwysydd amgaaedig. Mae'n cynhyrchu carbon deuocsid, methan, a solidau/hylifau a elwir yn dreuliant. Gellir defnyddio hwn yn wrtaith ac yn gompost.

Atodiad 1 | Targedau manwl ailgylchu a chompostio

1.1 Mae targedau lleol yn seiliedig ar ddull cam wrth gwm o gwrdd â thargedau lleol, fel y nodir yn adran 4.4. Adolygir y rhain yn fisol trwy gyfrwng y cynlluniau gwasanaeth.

Targed	Cyfanswm	Ailgylchu	Compostio
Lleol a Chenedlaethol 2008/ 09	35%	20%	15%
LICC 2009/10	40%	25%	15%
LICC 2010/11	45%	30%	15%
LICC 20011/12	50%	35%	15%

1.2 Cyflwyno targed bwyd penodol yn ychwanegol at darged ailgylchu a chompostio

1.3 Bellach mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwblhau ei ymgynghoriad ar dargedau arfaethedig y Strategaeth Wastraff Newydd ar gyfer Cymru, fel y nodir yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Nodir y targedau sy'n ymwneud â lleihau gwastraff ac arallgyfeirio o safleoedd tirlenwi isod ac fe'u defnyddir fel sail ar gyfer y strategaeth hon.

2009/ 10 ailgylchu isafswm o 40% y mae 15% ohono'n gompost

2012/ 13 ailgylchu isafswm o 52% y mae 12% ohono'n fwyd (Statutory)

2015/ 16 ailgylchu isafswm o 58% y mae 14% ohono'n fwyd

2019/ 20 ailgylchu isafswm o 64% y mae 16% ohono'n fwyd

2024/ 25 ailgylchu isafswm o 70% y mae 16% ohono'n fwyd

1.4 Mae'r targedau yn seiliedig ar y ganran o gyfanswm gwastraff trefol sy'n cael ei gynhyrchu.

Targed	Cyfanswm	Ailgylchu a chomposti o	Bwyd
Lleol a chenedlaethol			
LICC 2012/ 13	52%	40%	12%
LICC 2013/ 14	51.75%	39%	12.75 %
LICC 2014/ 15	54.25%	41%	13.25 %
LICC 2015/ 16	58%	44%	14%
LICC 2016/ 17	59.5%	45%	14.5%
LICC 2017/ 18	61%	46%	15%
LICC 2018/ 19	62.5%	47%	15.5%
LICC 2019/ 20	64%	48%	16%
LICC 2020/ 21	65%	49%	16%
LICC 2021/ 22	67%	51%	16%
LICC 2022/ 23	69%	53%	16%
LICC 2023/ 24			
LICC 2024/ 25	70%	54%	16%

2012/13 uchafswm o 295kg fesul preswlydd y flwyddyn

2015/ 16 uchafswm o 258kg fesul preswlydd y flwyddyn

2019/ 20 uchafswm o 210kg fesul preswlydd y flwyddyn

2024/ 25 uchafswm o 150kg fesul preswlydd y flwyddyn

2015/ 16 uchafswm o 42% Ynni o Wastraff (EfW / CHP)

2019/20 uchafswm o 36% Ynni o Wastraff (EfW / CHP)

2024/ 25 uchafswm o 30% Ynni o Wastraff (EfW / CHP)

2019/ 20 uchafswm o 10% i safle tirlenwi

2024/ 25 uchafswm o 5% i safle tirlenwi

Atodiad 2 | Manylion gwasanaethau casglu gwastraff trefol Cyngor Sir y Fflint

Casglu Sbwriel

- 2.1 Caiff gwastraff domestig ei gasglu'n wythnosol mewn sachau duon. Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol Sir y Fflint sy'n cyflawni'r gwasanaeth. Ym Mawrth 2009 roedd yna 66,262 eiddo domestig.
- 2.2 Mae polisïau a chynlluniau'r Cyngor yn berthnasol i'r Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol mewnol ac mae ganddo dargedau perfformiad pendant, a adolygir o fewn Cynlluniau Gwasanaeth y Cyngor sy'n cyd-fynd â Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Casglu Papur – Cynllun Casglu Bagiau Glas

- 2.3 Bydd papur (papurau newydd a chylchgronau) a chardfwrdd yn cael ei gasglu ar ymyl y ffordd o oddeutu 64,300 o aelwydydd ar draws Sir y Fflint (97% ohoni). Cânt eu casglu bob pythefnos gan ddefnyddio sachau plastig glas y gellir eu haildefnyddio a cherbydau casglu pwrpasol a weithredir gan y Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol. Yna caiff yr holl bapur a chardfwrdd ei anfon i UPM Kymmene, Melin Bapur Shotton, i'w ailbroseu.

Deunydd Ailgylchu Sych – Cynllun Casglu Bocsys Glas

- 2.4 Dechreuodd y cynllun casglu o ymyl y ffordd ar gyfer deunyddiau ailgylchu sych a wahanwyd yn eu ffynhonnell ym mis Gorffennaf 2001, wedi'i ariannu gan y Cynllun Credyd Treth Tirlenwi ar y dechrau. Cynigiwyd y cynllun i 7,500 o aelwydydd fel cynllun peilot i gasglu gwydr, poteli plastig, caniau/tuniau a thecstilau gan ddefnyddio bocsys glas 55 litr, sy'n cael eu gwagio bob pythefnos. Cafodd y cynllun bocsys glas ei ehangu'n barhaus ac erbyn hyn caiff ei gynnig i 97% o aelwydydd (64,300). Oherwydd cyfyngiadau'r farchnad, nid yw'r cynllun yn casglu tecstilau mwyach.
- 2.5 Cyflwynwyd dwy sach bolypropylen y gellir eu haildefnyddio i gasglu caniau (yn dal 50 litr) a photeli plastig (yn dal 80 litr) o ymyl y ffordd yn 2009 mewn ymateb i'r posibilrwydd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno treth ar fagiau y gellir ond eu defnyddio unwaith. Gan fod preswylwyr Sir y Fflint yn gwneud defnydd cyson o'r sachau hyn gall y bocs glas 50 litr ddal gwydr ar gyfer ei gasglu.

Casglu Deunydd Organig (Gwastraff Gardd Gwyrdd) – Cynllun Biniau Brown

- 2.6 Cyflwynwyd gwasanaeth casglu gwastraff organig o'r ardd yn Ebrill 2003 ac wrth iddo gael ei ehangu'n barhaus caiff ei gynnig i 82% (54,200) o eiddo'r Sir erbyn hyn. Caiff gwastraff organig o'r ardd ei gasglu gan ddefnyddio bin 140 litr ar olwynion a darperir y gwasanaeth bob pythefnos yn ystod misoedd yr haf (Chwefror i Ragfyr) yn gostwng i wasanaeth misol yn ystod Ionawr. Y Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol sy'n rhedeg y gwasanaeth fel rhan o'r contract casglu gwastraff cyffredinol. Caiff yr holl wastraff gwyrdd sy'n cael ei gasglu ei gludo i'r cyfleuster Rhesi Compostio Agored ym Maes-glas, a agorwyd yn 2002. Caiff y gwastraff gwyrdd ei rwygo, ac yna'i drefnu'n rhesi compost hir, sy'n gwneud i'r deunydd bydru'n gyflymach. Caiff tymheredd y rhes gompost ei monitro a chaiff y rhes ei throi bob ychydig wythnosau er mwyn ychwanegu ocsigen i'r pentwr. Caiff y rhes gompost ei throi rhwng 3 a 5 gwaith ar gyfartaledd, ac yna caiff y deunydd ei sgrinio i wahanol feintiau, 40mm hyd at 10mm. Mae'r cynnyrch terfynol yn gyflyrydd pridd maethlon iawn a chaiff ei anfon i Fferm Organig y Rhyg ger Corwen.

Casglu Deunydd Organig – Parciau a Gerddi

2.7 Darperir sgipiau i'r tîm Parciau a Gerddi er mwyn casglu gwastraff organig gwyrdd a gynhyrchir yn sgil eu gwasanaeth. Caiff y gwastraff yma hefyd ei brosesu yng nghyfleuster rhesi compost agored Cyngor Sir y Fflint ym Maes-glas.

Safleoedd Danfon

2.8 Mae Sir y Fflint yn darparu 26 o safleoedd banciau danfon, sef cyfleusterau cymunedol lle gall deiliaid fynd â'u deunydd i'w ailgylchu. Darperir banciau ar gyfer papur, gwydr, plastig, caniau, tecstilau, esgidiau a llyfrau.

2.9 Y Cyngor sy'n rheoli'r safleoedd ac mae'r gwaith o gasglu rhai deunyddiau i'w hailgylchu yn cael ei is-gontractio.

Canolfannau Ailgylchu (Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig)

2.10 Mae 8 Safle Ailgylchu yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, wedi'u lleoli yn y mannau canlynol:

- ▶ Bwcle
- ▶ Cei Connah
- ▶ Y Fflint
- ▶ Maes-glas
- ▶ Yr Wyddgrug
- ▶ Yr Hob
- ▶ Queensferry
- ▶ Saltney

2.11 Safle ailgylchu 100% yw'r un yn Saltney (ers Ebrill 2005) sydd ond yn derbyn deunyddiau y gellir ei hailgylchu yn awr.

2.12 Oherwydd y modd y darparwyd safleoedd yn y gorffennol mae'r rhan fwyaf o Barciau Ailgylchu yng nghanol a dwyrain y sir. Agorodd safle'r Maes-glas ym mis Hydref 2005, gan ddarparu cyfleuster modern gyda deg cilfach ar lefelau gwahân ar gyfer gorllewin y sir.

2.13 Mae Cwmni Gwaredu Gwastraff yr Awdurdod Lleol, AD Waste Cyf., wedi rheoli'r contract ar gyfer y safleoedd hyn ers mis Gorffennaf 2005, o dan contract rheoli seiliedig ar berfformiad sy'n golygu ei bod yn ofynnol iddo ailgylchu mwy na 40%. Trwy wella'n gyson o un flwyddyn i'r llall, mae'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig yn arallgyfeirio 67% o'r holl wastraff a dderbynnir i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, erbyn hyn.

Gwastraff Masnachol

2.14 Mae'r Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff masnachol fel rhan o'r contract casglu gwastraff, gan gasglu gwastraff gweddilliol o oddeutu 1000 o safleodd busnes. Mae'r casgliadau yn defnyddio cymysgedd o finiau ar olwynion a sachau ac mae'r taliadau yn amrywio'n unol â hynny.

2.15 Darperir gwasanaethau ailgylchu ar gyfer cwsmeriaid masnach hefyd. Caiff gwydr ei gasglu o gyfres o fanciau wedi'u lleoli ar eiddo masnachol; ceir oddeutu 8 safle o'r fath. Yn ogystal â darparu dull o ailgylchu ar gyfer y cwsmeriaid masnachol, mae'r safleoedd hyn hefyd ar gael i drigolion Cyngor Sir y Fflint sy'n byw yn y cyffiniau.

Casglu Gwastraff Swmpus

- 2.16 Mae gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus ar gael i'r rhai sy'n gofyn ar gyfer eitemau dodrefn mawr, nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel gwastraff domestig wythnosol arferol.
- 2.17 Gwasanaeth rhad ac am ddim yw hwn, ar gyfer rhai eitemau, i ddeiliaid sy'n derbyn budd-daliadau, sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Byw i'r Anabl neu Bensiwn y Wladwriaeth. Codir tâl bychan ar drigolion nad ydynt yn derbyn budd-daliadau, £10.00 am hyd at 5 eitem a £2 am bob eitem wedi hynny. Mae terfyn o 10 eitem o'r cartref (neu hyd at 20 bag bin) mewn cyfnod o ddeuddeg mis.
- 2.18 Byddwn yn rhoi dyfynbrisiau unigol ar gyfer gwastraff gardd ychwanegol ac am glirio siediau.

Ailgylchu mewn Ysgolion

- 2.19 Cynigir gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu sych o bob ysgol yn Sir y Fflint, yn gysylltiedig â'r cynlluniau ymyl y ffordd.

Casgliad Clinigol

- 2.20 Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu Casgliad Gwastraff Clinigol i drigolion sy'n derbyn gofal yn y gymuned. Casgliad wythnosol yw hwn sy'n digwydd dros gylch o 3/4 diwrnod i gyfanswm o oddeutu 1500 o aelwydydd.

Tipio Anghyfreithlon

- 2.21 Mae gan Gyngor Sir y Fflint dîm gorfodi pwrpasol, o fewn yr adran Gwasanaethau Amgylcheddol, sy'n ymchwilio i achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon ar dir cyhoeddus ac achosion o gamddefnyddio gwastraff masnachol. Gan weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r broblem yma trwy ddull gweithredu sy'n cyfuno addysg a gorfodaeth.
- 2.22 Mae'r Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol yn gweithredu cerbyd a thîm pwrpasol i ymateb i achosion o dipio anghyfreithlon. Ar gyfartaledd, caiff y mwyafrif o achosion o dipio anghyfreithlon yn Sir y Fflint eu clirio o fewn tri diwrnod gwaith. Yn aml bydd angen defnyddio peiriannau ac offer arbenigol i glirio achosion mwy o dipio anghyfreithlon.

Cerbydau sy'n cael eu Gadael

- 2.23 Mae'r tîm gorfodi pwrpasol hefyd yn ymchwilio i adroddiadau fod cerbydau wedi'u gadael. Mae pwerau gan Gyngor Sir y Fflint i symud cerbydau sy'n cael eu gadael ar y briffordd o dan y Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978. Rhaid olrhain perchnogion blaenorol y cerbyd a chysylltu â nhw cyn y gellir cael gwared â'r cerbyd.
- 2.24 Mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaethau Tân a chwmni gwaredu cerbydau trwyddedig, sefydlwyd Amnest Cerbydau yn Sir y Fflint i gael gwared ar gerbydau nad oes neb ei heisiau yn rhad ac am ddim.

Darparu Biniau Baw Cŵn

- 2.25 Mae yna oddeutu 560 o finiau baw cŵn yn y sir. Gosodir y biniau yma mewn rhannau o'r sir ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd a'r Cynghorau Tref a Chymuned. Caiff y biniau cŵn eu gwagio gan y Sefydliad

Gwasanaeth Uniongyrchol ar sail wythnosol sy'n dibynnu ar ba mor aml y cânt eu defnyddio; caiff rhai eu gwagio ddwywaith yr wythnos sy'n golygu y cânt eu gwagio 560+ gwaith bob wythnos.

Clirio Marchnadoedd

2.26 Mae'r Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol hefyd yn gyfrifol am gael gwared â gwastraff o farchnadoedd Sir y Fflint. Caiff ei gasglu ar sail amserlen o farchnadoedd wythnosol yr Wyddgrug, Cei Connah, Treffynnon a'r Fflint.

Atodiad 3 | Manylion gweithredwyr ailgylchu preifat a gontractwyd gan Gyngor Sir y Fflint i drin deunyddiau ailgylchu a gasglwyd

3.1 Mae Sir y Flint wedi ymrwmo i gwrdd â'r egwyddorion a nodir yn Atodiadau 5 a 7 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff sy'n argymhell y dylai gwastraff gael ei drin mor agos ag sy'n bosibl at y ffynhonnell. Y nod felly yw bod yn hunangynhaliol ar lefel ranbarthol/neu is-ranbarthol - yr hyn sy'n cael ei alw'r egwyddor agosrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r allfeydd ailgylchu presennol o fewn radiws o 50 milltir i Sir y Fflint. Ceir crynodeb isod o'r allfeydd ar gyfer deunyddiau sy'n cael eu casglu drwy'r Cynlluniau Casglu o'r Pafin, Parciau Ailgylchu a Safleoedd Dod â Gwastraff:

Deunydd	O'r pafin
Gwydr Bocs glas	Recresco Ltd Manisty Wharf, North Road, Ellesmere Port, Cheshire, CH65 1AB
Papur a Chardfwrdd Bag Glas	UPM-Kymmene (UK) Ltd Shotton Paper, Weighbridge Road, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 2LL Trwy Parry and Evans, Sandycroft
Caniau (alw) Bocs glas a Pharciau Ailgylchu	Novelis (Alu) Latchford Lock Works, Warrington, Cheshire, WA4 1NP
Caniau (dur) Bocs glas a Pharciau Ailgylchu	CansCorus, Via the Can Route Centre – European Metal Recycling Ltd Rochdale (Steel) Uncouth House, Uncouth Road, Milnrow, Rochdale, OL16 3DD
Gwastraff Gardd Bin Brown a Pharc Ailgylchu	AD Waste Ltd Safle Compostio Maes-glas, CH8 7HT
Tudalennau Melyn Deunydd o Ysgolion	Parry & Evans (ailgylchir yn Shotton Paper) Stâd Ddiwydiannol Fferm Hafren, Y Trallwng, Powys, SY21 7DF

Deunydd	Safleoedd Dod â Gwastraff / parciau ailgylchu
Llyfrau	Oxfam Donated Products Sourcing, Office 281-283, Fulwood Road, Sheffield, South Yorkshire, S10 3BD Sefydliad Prydeinig y Galon Cesglir drwy ganolfan leol
Gwydr	Glass Recycling UK Ltd 418 Carlton Road, Carlton, Barnsley, South Yorkshire, S71 3HX
Papur	UPM-Kymmene (UK) Ltd Shotton Paper, Weighbridge Road, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 2LL

Poteli Plastig	<p>Intercontinental Recycling Ltd Gerrard Place, East Gillibrands, Skelmersdale, Lancashire, WN8 9SU</p> <p>Eurokey Recycling Quartz Close, Warren Industrial Estate, Enderby, Leicester, LE19 4SG</p> <p>JFC Plastic Ltd Hardwick Road, Astmoor Industrial Estate, Runcorn, WA7 1P</p>
Caniau	<p>Dobbins, P, (Chester) Limited British Railways Buildings, Saltney Ferry, Sir y Fflint</p> <p>Solid Cast Raglan Street, Hyde, Cheshire, SK14 2DX</p>
Esgidiau	<p>The European Recycling Company Whitehead House , 120 Beddington Lane, Croydon, Surrey, CR9 4ND</p>
Tecstilau	<p>Oxfam Donated Products Sourcing, Office 281-283, Fulwood Road, Sheffield, South Yorkshire, S10 3BD</p> <p>Scope Scope Trading, 25a High Street Knaresborough, North Yorkshire, HG5 0ET</p> <p>Salvation Army Trading Company Limited Recycling Unit, 66-78 Denington Road, Wellingborough, Northamptonshire, NN8 2QH</p>
Batris	<p>G&P Batteries Crescent Works, Willenhall Road, Darlaston, Walsall, West Midlands</p>
Oergelloedd	<p>Global Environmental Recycling Company Limited Unit D, Maritime Business Park, Campbeltown Road, Birkenhead, CH4 9BP</p>
Sgrap	<p>J. Chadwick's & sons Factory Road, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy, CH5 2QJ</p>
Depo Cardfwrdd	<p>Parry & Evans Stâd Ddiwydiannol Fferm Hafren, Y Trallwng, Powys, SY21 7DF</p>
Cardfwrdd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref	<p>Oswestry Waste Paper The Mill, Mile Oak Ind Est, Oswestry, SY10 8HA</p>
Tetra Paks (cynwysyddion sudd)	<p>Tetra Pak Ltd Bedwell Road, Cross Lanes, Wreccsam, LL13 0UT</p>
Gwastraff gardd	<p>AD Waste Ltd Safle Compostio Maes-glas, Parc Busnes Maes-glas, Maes-glas, CH8 7AB</p>
Pren	<p>GI Hadfield & Son Ltd Lumm Farm, Littlemoss, Droylsden, Manchester, M43 7LB</p>
Olew	<p>Oil Salvage Ltd Lysters Road, Bootle, Merseyside, L20 1AS</p>

Ffilteri olew	Safety Kleen UK Ltd. Uned 2, Broughton Mills, Brychdyn, Sir y Fflint, CH4 0BY
Teiars	DME Tyres Unit 1, Ring Road, Zone 2, Chase Terrace, Burntwood, Staffs, WS7 8JQ
Tiwbiau / bylbiau fflwroleuol	Lampcare Unit C, River Way, Maede Park Ind. Estate Harlow, Essex, CM20 2SE
Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff	ERP GEODIS (Cynllun Cydymffurfio) Unit D, Maritime Business Park, Campbeltown Road, Birkenhead, CH4 9BP Global CF40 1HZ Waste Technique Apollo House, Stâd Ddiwydiannol Penygraig, Heol Dinas, Penygraig, Tonypany, M5 4LQ EMR Uncouth Road, Milnrow, Rochdale, Lancashire
Asbestos	Ineous Clor Runcorn Site, PO Box 9, Runcorn, WA7 2JE

Atodiad 4 | Dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff

4.1 Comisiynodd LICC Eunomia i gynnal Dadansoddiad o Gyfansoddiad Gwastraff (WCA) ar nifer o awdurdodau Cymreig. Roedd hwn yn llywio papur Future Directions Diwygiedig ' LICC Ebrill 2009, sef y ddogfen ymgynghori a gafodd ei rhyddhau cyn cyhoeddi'r Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru. Cwestiynwyd methodoleg y dadansoddiad hwn am nad yw'n gynrychioliadol o wasanaethau casglu ac arferion trigolion holl Awdurdod Lleol Cymru ar hyn o bryd. Oherwydd hynny mae LICC wedi ariannu WRAP i gynnal dadansoddiad cyfansoddiadol o wastraff fesul Awdurdod Lleol.

Canlyniadau Cenedlaethol y Dadansoddiad o Gyfansoddiad Gwastraff

Deunydd	AEA	Eunomia
Papurau newydd a chylchgronau	9.0%	7.2%
Papur ailgylchadwy	2.1%	1.9%
Bocsys /cynwysyddion cardfwrdd	5.1%	5.3%
Papur a chardfwrdd arall	4.8%	5.2%
Bagiau sbwriel a bagiau siopa untro	1.3%	1.4%
Ffilm pecynnu	1.3%	1.5%
Ffilm plastig arall	0.2%	0.2%
Poteli plastig trwchus	1.7%	1.8%
Deunydd pecynnu arall	1.5%	1.7%
Plastig trwchus arall	1.3%	1.5%
Tecstilau	1.8%	2.1%
Esgidiau	0.4%	0.4%
Clytiau parod	2.3%	2.5%
Pren	2.8%	3.6%
Carpedi ac isgarpedi	1.5%	1.7%
Dodrefn	1.5%	1.5%
Deunyddiau llosgadwy amrywiol eraill	3.6%	2.1%
Gwydr pecynnu	5.3%	5.3%
Gwydr heb fod ar gyfer pecynnu	0.5%	0.5%
Gwastraff gardd	12.7%	10.5%
Gwastraff bwyd a chegin	15.7%	17.6%
Deunydd organig arall	2.1%	2.3%
Caniau bwyd a chaniau diod fferrus	1.7%	1.9%
Metel fferrus arall	3.1%	2.2%
Caniau bwyd a chaniau diod anfferrus	0.3%	0.4%
Metel anfferrus arall	0.5%	0.6%
Nwyddau gwyn	0.8%	0.9%

Nwyddau electronig mawr	0.2%	0.2%
Teledyddion a monitorau	0.3%	0.3%
Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) arall	0.7%	0.7%
Batris plwm/asid	0.2%	0.2%
Olew	0.1%	0.1%
Gwastraff clinigol adnabyddadwy	0.2%	0.2%
Gwastraff arall allai fod yn berygl	0.3%	0.3%
Gwastraff adeiladu a dymchwel	5.2%	5.2%
Gwastraff arall amrywiol nad yw'n llosgi	2.8%	1.2%
Deunydd mân	5.2%	5.7%
Gwastraff cymysg	0.0%	2.0%
Cyfanswm	100%	100%

Ffynonellau:

AEA Technology, MEL Research, Waste Research and WRc (2003) Cyfansoddiad Gwastraff Soled Bwrdeistrefol yng Nghymru, Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2003.

Eunomia, Dr Dominic Hogg, Dr Jessica North, Hannah Montag and Joe Papineschi, Scoping New Municipal Waste Targets for Wales, Adroddiad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Medi 2007

- 4.2** Ar hyn o bryd mae Sir y Fflint yn cynnal Dadansoddiad Llawn o Gyfansoddiad Gwastraff yn ystod haf a gaeaf 2009/10 fel rhan o ymarfer LICC a WRAP. Bydd y dadansoddiad yn dilyn y Protocol a osodwyd gan LICC.
- 4.3** Bydd y dadansoddiad yn archwilio'r holl ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu a'u compostio trwy'r gwahanol wasanaethau sy'n cael eu darparu. Bydd hefyd yn dadansoddi'r deunyddiau sy'n cael eu gadael yn y ffrwd wastraff dros ben, a fydd o gymorth i adnabod adnoddau posibl allai gael eu hachub, a'u harallgyfeirio o safleoedd tirlenwi.
- 4.4** Bydd canlyniadau cychwynnol, sy'n diweddarau'r adran hon, ar gael o'r hydref ymlaen.


Atodiad 5 | Ffigurau gwastraff manwl amrywiol

Gwastraff a aeth i Dirlenwi o gymharu â'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi 2004-2009

Blwyddyn	Chwarter	GTB a yrrwyd i'r dirlenwi	Lwfans tirlenwi chwarterol	GTB blynyddol a dirlenwyd	Lwfans tirlenwi blynyddol	Gwahaniaeth
04_05	Ch1 2004_05					
04_05	Ch 2 2004_05					
04_05	Ch 3 2004_05	9834	13977			-4143
04_05	Ch 4 2004_05	12142	13977	21976	27953	-1835
05_06	Ch 1 2005_06	12267	13005			-738
05_06	Ch 2 2005_06	9513	13005			-3492
05_06	Ch 3 2005_06	8276	13005			-4729
05_06	Ch 4 2005_06	9685	13005	39741	52021	-3320
06_07	Ch 1 2006_07	9706	12034			-2328
06_07	Ch 2 2006_07	8618	12034			-3417
06_07	Ch 3 2006_07	7705	12034			-4329
06_07	Ch 4 2006_07	9481	12034	35508	48136	-2553
07_08	Ch 1 2007_08	10382	11063			-681
07_08	Ch 2 2007_08	9820	11063			-1243
07_08	Ch 3 2007_08	7903	11063			-3160
07_08	Ch 4 2007_08	8660	11063	36764	44252	-2403
08_09	Ch 1 2008_09	7980	10091.75			-2111
08_09	Ch 2 2008_09	7126	10091.75			-2965
08_09	Ch 3 2008_09	7794	10091.75			-2298

08_09	Ch 4 2008_09	8431	10091.75	31332	40367	- 1661
-------	-----------------	------	----------	-------	-------	-----------

Darlun ar ffurf graff o'r Gwastraff a Dirlenwyd o gymharu â'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi 2004-2009



Deilliannau Gwastraff Gwirioneddol a Rhagamcanol Sir y Fflint 2002-2020


	2002-2003	2003-2004	2004-2005	2005-2006	2006-2007	2007-2008
Deilliant gwastraff	96,502	98,147	100,071	92,062	91,230	93,656

	2008-2009	2009-2010	2010-2011	2011-2012	2012-2013	2013-2014
Deilliant gwastraff	94,593	89,774	89,953	90,313	90,855	91,400

	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	2018-2019	2019-2020
Deilliant gwastraff	91,948	92,500	92,870	93,241	93,614	93,989

Cyfrifiwyd cyfraddau twf yn unol â rhagamcaniadau cyfraddau twf Partneriaethau Trin Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru.

Dadansoddiad o fathau o ddeiliant gwastraff



Atodiad 6 | Manylion y cynlluniau strategaeth rheoli gwastraff

Lleihau

6.1 Mae lleihau gwastraff ar frig yr hierarchaeth wastraff. Gall ailgylchu helpu i arbed deunyddiau ac ynni, ond mae hyd yn oed yn well cwtogi ar wastraff yn y lle cyntaf. Pecynnu ar gyfer manwerthu yw tua 18 y cant o wastraff cartrefi. Mae siopa'n ofalus, osgoi bagiau untro, a dewis cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio ymhlith y dulliau y gellir eu defnyddio i osgoi gwastraff.

Compostwyr Cartref

6.2 Gellir compostio gwastraff cegin a gardd gartref. Mae dros draean gwastraff cartrefi yn organig, gan gynnwys gwastraff cegin a gardd. Os yw'n cael ei yrru i dirlenwi, mae gwastraff organig yn creu methan sy'n 23 gwaith mwy nerthol na charbon deuocsid yn nhermau nwy tŷ gwydr. Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i roi cymorthdaliadau er mwyn helpu trigolion i gompostio gartref.

Polisi Caffael y Cyngor

6.3 Mae'r cyngor yn benderfynol o leihau cyfanswm y gwastraff y mae'n ei gynhyrchu a bydd yn canolbwyntio ar gaffael gwyrdd sy'n cynnwys edrych ar gylch bywyd cynnyrch a phrynu cynhyrchion wedi eu gwneud o ddeunyddiau a ailgylchwyd lle bo hynny'n bosib. Mae'r cyngor yn gweithio i gryfhau Gwobr Draig Werdd y Cyngor sef system reoli amgylcheddol.

Taclo Post Sothach

6.4 Gan weithio mewn partneriaeth gyda Craff am Wastraff, mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i hyrwyddo gwasanaeth dewis post, ble gall preswylwyr gofrestru i wrthod post sothach a sefydlu gweithdrefnau i atal post cyn-breswylwyr rhag cael ei anfon.

Gweithio gyda busnesau/gweithgynhyrchwyr

6.5 Gan weithio mewn partneriaeth gyda CLIC, i lloïo Consortiwm Manwerthwyr Prydain gyda golwg ar leihau swm y deunydd pecynnu sy'n cael ei ddefnyddio mewn nwyddau a weithgynhyrchir, mae CSFf yn rhoi cyngor i fusnesau lleol ar reoli gwastraff yn gynaliadwy heb wastraffu adnoddau.

Ailddefnyddio

6.6 Oherwydd ein ffordd o fyw y dyddiau hyn, rydym yn colli golwg ar aildefnyddio gwastraff yn gyffredinol. Ein tuedd yw defnyddio eitemau unwaith yn unig ac wedyn eu taflu neu gael rhai yn eu lle, yn hytrach na'u hailddefnyddio neu eu trwsio.

Mudiadau Ailddefnyddio a Thrwsio

6.7 Nid y Cyngor yw'r unig gorff sy'n gallu hyrwyddo ac annog lleihau gwastraff drwy'r Sir. Mae llawer o grwpiau yn y gymuned sydd mewn sefyllfa ffafriol i ddatblygu mentrau sy'n arwain ar leihau gwastraff, un ai trwy hyrwyddo 'ailddefnyddio' eitemau nad oes eu heisiau, neu trwy ddileu gwastraff yn y ffynhonnell. Mae nifer o grwpiau lleol eisoes yn weithredol yn Sir y Fflint. Mae'r Cyngor yn cydnabod y rhan bwysig y mae'r mentrau lleol hyn yn ei chwarae mewn rheoli gwastraff yn Sir y Fflint a bwriadwn gefnogi'r cynlluniau hyn ar bob cyfle. Ymhlith yr enghreifftiau y mae Mudiadau Ailddefnyddio Nwyddau Cartrefi a Gwefannau cyfnewid.

Clytiau golchadwy

6.8 Mae tua 200 miliwn o glytiau parod yn cael eu taflu bob blwyddyn yng Nghymru, a'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i safleoedd tirlenwi yn y diwedd. Mae'n gall cymryd cannoedd o flynyddoedd iddynt fioddiraddio mewn safleoedd tirlenwi. Gall clytiau golchadwy helpu i leihau deilliant gwastraff teuluoedd o 50% bron. Bydd y cyngor yn ystyried cymhellion ariannol i helpu teuluoedd i gefnu ar glytiau parod ac yn parhau i hyrwyddo defnyddio clytiau golchadwy.

Ailgylchu

6.9 Ailbrosesu gwastraff yw ailgylchu, boed i'r un cynnyrch neu gynnyrch gwahanol. Mae ailgylchu'n l leihau'r galw am ddeunyddiau crai, trwy leihau effaith amgylcheddol echdynnu a chludo.

Cyfraddau Cyfranogi

6.10 Yn dilyn ymarfer monitro, gosodwyd targedau isafswm (Adran 4.5). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy weithgareddau addysg a chodi ymwybyddiaeth. (Gweler Atodiadau 7 am fanylion pellach.)

Ymgyrchoedd Codi Ymwybyddiaeth i Gartrefi

6.11 Y nod fydd sefydlu beth sy'n atal trigolion rhag cymryd rhan a helpu i chwalu unrhyw rwystrau a ganfyddir ganddynt. Bydd amryfal dechnegau fel holiaduron yn cael eu defnyddio i wneud hyn. Bydd hefyd yn ffordd dda o gael adborth ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Gwasanaeth Ailgylchu Mewnol a Sector Cyhoeddus

6.12 Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i wella'r ffordd y mae gwastraff yn cael ei reoli yn eu swyddfeydd ac ar eu safleoedd. Rhoddwyd y cyfrifoldeb i'r tîm caffael o ystyried cylch bywyd unrhyw gynhyrchion sy'n cael eu prynu. Mae Sir y Fflint hefyd yn gweithio tuag at System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, sydd wedi ei hachredu i ISO 14001.

Gwelliannau i Barciau Ailgylchu

6.13 Ar hyn o bryd mae tua chwarter gwastraff cartrefi Sir y Fflint yn cael ei gasglu trwy'r 8 Parc Ailgylchu. Yn 2008/09 fe wnaeth y safleoedd gyda'i gilydd arallgyfeirio 67%. Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i barhau'r llwyddiant a gafwyd hyd yma trwy roi'r gwelliannau sy'n dilyn ar waith:

- ▶ Adolygu Cyfarfod a Chyfarch wrth y Giât
- ▶ Mwy o gyngor am ddeunyddiau y gellir eu hailddefnyddio a'u hailgylchu
- ▶ Cynyddu nifer y sgiapiau cywasgu, sy'n lleihau symudiadau sgiapiau (9 tunnell o wastraff yn cael ei gasglu yn hytrach na 4.5 tunnell)
- ▶ Cynyddu ffrydiau deunyddiau (dibynnol ar y farchnad)
- ▶ Gwella cynllun safleoedd
- ▶ Cyfleuster lefelau gwahân newydd o'r radd flaenaf yn Sandycroft
- ▶ Adolygu Parciau Ailgylchu
- ▶ Gwella'r Arwyddion ym mhob safle

Gwelliannau i Safleoedd dod â Gwastraff

6.14 Mae 26 o Safleoedd dod â Gwastraff drwy Sir y Fflint i gyd. Byddwn yn ailedrych ar leoliad y safleoedd hyn er mwyn sicrhau bod yr adnoddau ar gael i ddeiliaid cartrefi tu allan i radiws 5 milltir Parc Ailgylchu er mwyn cynyddu cyfleoedd ailgylchu i'r eithaf. Bydd y cyngor hefyd yn trafod y posibilrwydd i gymunedau fabwysiadu'r safleoedd, fel eu bod yn dod yn rhan o fywyd y gymuned, gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Casgliadau gwastraff bwyd

6.15 Er mwyn cyrraedd y targedau penodol ar gyfer bwyd a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad (LICC) a chynyddu arallgyfeirio Gwastraff Trefol Biogddiraddadwy (GTB) rhag mynd i'w dirilenwi, bydd Sir y Fflint yn dechrau casglu gwastraff bwyd yn wythnosol unwaith y ceir allfa i'w drin. Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i'r bartneriaeth is-ranbarthol gyda Chonwy a Sir Ddinbych i brynu Cyfleuster Treuliwr Anerobig. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cad i cegin 7litr gyda leiniwr y gellir ei gompostio i'r trigolion, gaiff ei gasglu o'r pafin mewn cynhwysydd 23 litr. Bydd yr holl breswylwyr yn derbyn llenyddiaeth fanwl a chyngor drwy'r wefan a thrwy'r Timau Gwasanaeth Cwsmer ac Ailgylchu.

Ailgylchu Wythnosol

6.16 Er mwyn cynyddu cyfleoedd ailgylchu i'r eithaf a chynyddu cyfranogi, bydd angen casglu'n amlach sef bob wythnos yn hytrach na phob pythefnos. Bydd hyn yn sicrhau bod ailgylchu'n dod yn arfer safonol ac yn cael blaenoriaeth dros gael gwared â gwastraff sydd dros ben.

Casgliadau Wythnosol a Reolir / Gwasanaeth ABC (Casglu Biniau Bob yn Ail)

6.17 Ar ôl cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd wythnosol a chasgliadau ailgylchu wythnosol, bydd llai o wastraff ar ôl yn y sach ddu, felly byddai newid patrymau casglu yn sicrhau gwerth gorau ac yn rhoi ateb cynaliadwy. Byddai'r casgliadau gwastraff gweddilliol yn cael eu casglu unwaith yr wythnos, ac yna'r bin brown gwastraff gwyrdd ar yr un diwrnod yr wythnos ddilynol. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn bodloni targedau 50% ; mae ALL eraill sydd wedi cyflwyno hyn wedi gweld cynnydd o 10% yn eu perfformiad ailgylchu.

6.18 Ein bwriad yw cadw gwasanaethau'n syml, ond o fewn fframwaith o esblygu parhaus, fel eu bod yn darparu gwasanaeth modern, cost-effeithiol a dibynadwy i'n cwsmeriaid. Bydd hyn yn golygu adolygu methodoleg casgliadau yn rheolaidd, cylchdroi gwybodaeth a dysgu gan eraill sy'n dilyn arferion gorau. Bydd hyn i gyd yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth gwerth gorau sydd ag ôl-troed ecolegol sy'n mynd yn llai.

6.19 Rydym yn bwriadu dal ati i ddatblygu cyfleoedd marchnad ar gyfer deunyddiau eraill gan weithio ochr yn ochr â diwydiant i wella unrhyw gyfleoedd am farchnadoedd i'r deunyddiau sy'n cael eu casglu. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i'r egwyddor agosrwydd wrth gael gafael ar farchnadoedd.

Gorfodaeth

6.20 Mae Sir y Fflint wedi sefydlu tîm gorfodaeth ar gyfer tipio anghyfreithlon a cherbydau sydd wedi'u gadael. Mae gan y cyngor bwerau deddfwriaethol i orfodi ail-gychu ac i atal rhoi gwastraff allan yn rhy fuan.

Pwyso gwastraff dros ben

6.21 Fel rhan o'r broses ymgynghori a gynhaliwyd gan LICC, mae'n bosibl y bydd y targedau a gynigir yn golygu y bydd yn rhaid darparu cynlluniau Codi Tâl Uniongyrchol ac Amrywiol / Talu wrth Daflu (TwD), boed hyn ar lefel Genedlaethol neu Leol.

Adennill

6.22 Er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar ôl yn y ffrwd wastraff yn cael eu harallgyfeirio o dirlenwi, fe fydd yna gyfleoedd i adennill. Bydd hyn yn helpu tuag at fodloni ein hymrwymiaadau i leihau ôl-troed carbon ac ecolegol Sir y Fflint.

Cyfleuster Adennill Deunyddiau

6.23 Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i ddefnyddio cyfleusterau er mwyn adennill gymaint ag sy'n bosib o unrhyw ddeunydd y gellir ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae cyfleuster bach i adennill deunyddiau ar waith ym Mwcle; didolir cynnwys sgipiau gwastraff cyffredinol o Barciau Ailgylchu, er mwyn cynyddu cyfleoedd i adennill.

Safle Treulio Anerobig

6.24 Mae Sir y Fflint yn rhan o bartneriaeth is-ranbarthol gyda Chonwy a Sir Ddinbych i brynu Treuliwr Bwyd Anerobig i drin gwastraff, sy'n creu gwahanol gynnyrch y mae modd eu hadennill. Mae'n bosib defnyddio deunydd wedi'i dreulio fel biowrtaith; gellir gwerthu Bionwy (carbon deuocsid a methan gan mwyaf) fel biodanwydd neu ei hylsgi i greu trydan sy'n gymwys i dderbyn Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROCs) – sy'n gymhelliant ariannol.

Partneriaethau Trin Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru (NWRWTP)

6.25 Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod sy'n arwain ar brynu cyfleusterau rheoli gwastraff dros ben yng Ngogledd Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

6.26 Dyma rai enghreifftiau o dechnolegau adennill a thrin adnoddau ar gyfer gwastraff dros ben:

- ▶ Triniaeth Fiolegol Fecanyddol (MBT)
- ▶ Triniaeth Wres Fecanyddol (MHT)
- ▶ Troi Gwastraff yn Ynni (W2E)
- ▶ Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP)
- ▶ Triniaeth Thermol Uwch (ATT)

6.27 Awgrymwyd ei bod yn bosibl y bydd strategaeth trin gwastraff ar y cyd rhwng awdurdodau partner yn y pen draw ar gyfer yr elfen dros ben. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cryn werth am arian i'r cyhoedd a byddwn yn parhau i'w ystyried gyda'n partneriaid rhanbarthol.

Adennill Nwy o Safleoedd Tirlenwi

6.28 Mae Nwy o Safleoedd Tirlenwi'n cael ei ddal yn barod yn Brookhill ac ar safleoedd Tirlenwi Arferol. Mae'r broses hon yn dal nwy methan sy'n gryfach na charbon deuocsid. Caiff y methan ei ddefnyddio i greu trydan a ddefnyddir ar y safle, a gwerthir beth dros ben yn ôl i'r Grid Cenedlaethol.

Gwaredu

6.29 Yn dilyn cynlluniau lleihau aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff, mae Sir y Fflint am reoli'r deunyddiau sy'n weddill yn y ffrwd wastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy.

6.30 Caeodd safle tirlenwi Sir y Fflint yn Brookhill ym mis Rhagfyr 2007. Mae gwastraff dros ben Sir y Fflint yn cael ei swmpo trwy ddefnyddio'r pad trosglwyddo yn Brookhill, er mwyn lleihau nifer y symudiadau cerbyd sydd eu hangen a chaiff ei lusgo gan ddefnyddio system both ddwbl. Ar hyn o bryd mae Sir y Fflint yn cludo gwastraff dros ben i safle tirlenwi yn Wrecsam.

6.31 Un o brif amcanion y Strategaeth hon yw bod yn llai dibynnol ar dirlenwi. Bydd gwastraff dros ben yr holl Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid yn cael ei drin drwy Bartneriaethau Trin Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru. Er hyn bydd angen cyfleusterau tirlenwi o hyd yn y dyfodol ar gyfer gweddillion o'r broses drin, ond fel rhan yn unig o rwydwaith fwy cynaliadwy o gyfleusterau trin gwastraff.

Atodiad 7 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a chynyddu cyfranogi

- 7.1 Mae llwyddiant Strategaeth Gwastraff Trefol Sir y Fflint yn dibynnu ar agweddau a chanfyddiadau o wastraff sy'n newid. Mae angen annog pob un o drigolion Sir y Fflint i gymryd rhan weithgar mewn lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy drwy wasanaethau'r Cyngor. Y bwriad yw gwreiddio'r arferion rheoli gwastraff hyn (trwy arferiad) ac iddynt ddod yn rhan hnafodol o fywyd pob dydd.
- 7.2 Mae Sir y Fflint wedi sefydlu cynlluniau addysg ac ymwybyddiaeth sydd ar waith yn barod, ond er mwyn hybu newid pellach mewn ymddygiad, mae'n hollbwsig fod mwy o ddatblygiadau ac adnoddau yn eu lle i sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn llwyddo.

Astudiaethau Achos – enghreifftiau o gynlluniau sy'n llwyddo ar hyn o bryd

Codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad pobl ifanc:

Mae swyddog arbennig gan Dîm Ailgylchu Sir y Fflint sy'n cynnal Gweithdai Ymwybyddiaeth Ailgylchu (R.A.W), sydd ar gael i bob ysgol babanod ac iau a grwpiau cymunedol ieuenctid lleol. Nod y gweithdy yw datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r hierarchaeth wastraff, materion amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy. Mae'r gweithdy'n cynnwys cyflwyniad hwyliog, llawn gwybodaeth i roi cefndir am wastraff ac arferion gorau ar gyfer rheoli gwastraff. Yn dilyn hyn ceir 'Dadansoddiad Cylch Bywyd' rhyngweithiol o'r deunyddiau sydd i'w cael yn y ffrwd wastraff cartrefi - ffynhonnell, defnydd, ailgylchu a'r opsiynau wrth waredu. Daw'r gweithdy i ben gyda chwis difyr sy'n pwysleisio materion allweddol yn ogystal â rhoi ffeithiau diddorol i ddisgyblion am ailgylchu a lleihau gwastraff.

Ailgylchu a Hyrwyddo mewn digwyddiadau mawr:

Yn 2007 cynhaliwyd yr Eisteddfod flynyddol yn Sir y Fflint. Darparodd Gwasanaethau Amgylcheddol CSFf gyfleusterau casglu ar gyfer ailgylchu o gwmpas y maes a meysydd gweryslla i ymwelwyr. Defnyddiwyd labelu clir, arwyddion Cynllun Craff am Wastraff, taflenni a gweithlu brwd ar y safle i hyrwyddo hyn. Roedd gan y tîm ailgylchu adran arbennig hefyd o fewn prif babel gorforaethol CSFf i hyrwyddo pob agwedd ar y strategaeth wastraff; y brif thema ganddynt oedd egluro beth sy'n digwydd i'r holl ddeunyddiau ar ôl iddynt gael eu casglu. Roedd hwn yn llwyfan delfrydol i ddangos arferion gorau Sir y Fflint i Gymru gyfan, ac i osod cynsail ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Mae gan Sir y Fflint stondin bob blwyddyn yn sioe amaethyddol fwyaf Gogledd Cymru; Sioe Fflint a Dinbych ac mae'n ymweld yn rheolaidd â sioeau a ffeiriau ar hyd a lled y sir.

Ymgyrchoedd ar Garreg y Drws

- 7.3 Bydd Sir y Fflint yn neilltuo tîm i ymweld â thrigolion drwy Sir y Fflint i gyd er mwyn helpu i godi lefelau cyfranogi ac i hyrwyddo'r gwasanaethau gwastraff sy'n cael eu darparu. Byddwn yn parhau i gynnal Arolygon Agwedd ac Ymwybyddiaeth er mwyn nodi'r rhwystrau allai atal cyfranogi, ac i gael adborth ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth o reoli gwastraff cynaliadwy ac annog trigolion i gymryd rhan. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n cael eu gwella'n gyson a'u bod yn canolbwyntio ar y cwsmer.

Ysgolion

Sgyrsiau a gweithdai

7.4 Gan adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd hyd yma, mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i gynnal cysylltiadau gydag ysgolion er mwyn gwella ymwybyddiaeth o wastraff. Mae gan y Tîm Ailgylchu Swyddog arbennig sy'n gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo rheoli gwastraff yn gynaliadwy, mae angen adnoddau ychwanegol i ddatblygu'r maes hwn. Y nod yw esbonio cylch bywyd cynhyrchion, cyfansoddiad y deunyddiau a ddefnyddiwyd, a sut mae'r cynnyrch yn cael ei ailgylchu, ei brosesu a'i drin unwaith y mae wedi cael ei daflu. Cynigir gweithdai a sgyrsiau i ysgolion ar wahanol lefelau; o'r Babanod drwedd i'r Chweched Dosbarth a Cholegau, gyda dolenni i'r cwricwlwm.

Eco-Ysgolion

7.5 Mae'r rhaglen Eco-Ysgolion yn gynllun gwobrwyo amgylcheddol rhyngwladol sy'n gwobrwyo ac yn achredu ysgolion sydd wedi gwneud ymrwymiad i wella eu perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Nod y rhaglen Eco-Ysgolion yw gwneud gweithredu ac ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan hanfodol o fywyd ac ethos yr ysgolion; disgyblion a staff a'r gymuned ehangach. Mae Sir y Fflint wedi hyfforddi Aseswyr Eco-Ysgolion i helpu i hyrwyddo ac asesu ysgolion i ennill statws Eco-Ysgolion, hyd yma mae 22 o ysgolion Sir y Fflint wedi derbyn y Faner Werdd, dyfarnwyd statws parhaol i 1 ysgol.

Cynlluniau Gwersi

7.6 Nod y Tîm Ailgylchu yw darparu cynlluniau gwersi i ysgolion a grwpiau tu allan i'r ysgol er mwyn helpu i wella ymwybyddiaeth o wastraff mewn ysgolion.

Gwobrau/Cyflawniadau

7.7 Hoffai Sir y Fflint gyflwyno cynllun gwobrwyo i gydnabod y cyflawniadau mewn ysgolion a'u hymrwymiad i gynlluniau ailgylchu, compostio a lleihau gwastraff.

Ymweliadau Ysgol

7.8 Er mwyn gwella'r dysgu a'r ddealltwriaeth o arferion gwastraff cynaliadwy, mae Sir y Fflint hefyd yn trefnu ymweliadau gan ysgolion i Safle Compostio, Parciau Ailgylchu a Safleoedd Tirlenwi Sir y Fflint. Mae'r ymweliadau hyn yn rhoi golwg werthfawr ar y ffordd y mae gwastraff Sir y Fflint yn cael ei reoli, nawr ac yn y gorffennol, a'r effaith y mae'n ei gael ar amgylcheddau lleol yn ogystal â dangos i ddisgyblion bod angen byw yn fwy cynaliadwy.

Grwpiau Cymunedol a Tu Allan i'r Ysgol

7.8 Yn debyg i weithdy ysgolion, mae Sir y Fflint yn gweithio gyda grwpiau tu allan i'r ysgol o bob oed megis clybiau ieuencid a mudiad y sgowtiaid. Y nod yw cynnal gweithgareddau rhyngweithiol a hwyliog sy'n helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wastraff. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn helpu grwpiau sgowtiaid a geidiaid i ennill Bathodynau cysylltiedig â'r amgylchedd.

7.9 Gan fod grwpiau cymunedol yn amrywio o ran oedran, mae cyflwyniadau a gweithdai wedi eu teilwrio i anghenion y grwpiau e.e. Sefydliad y Merched, Clybiau Ieuencid, Tenantiaid a Phreswylwyr ac ati. Maen nhw'n rhoi cyfleoedd gwych i drafod arferion rheoli gwastraff ac i roi adborth ar y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu. Mae'r sgyrsiau hyn o gymorth i ledaenu'r neges i'r gymuned leol.

Digwyddiadau Corfforaethol Mawr

7.10 Bydd Sir y Fflint yn cymryd rhan weithgar mewn unrhyw Ddigwyddiad Corfforaethol gan ddefnyddio'r trelar hyrwyddo, yn cynnwys y Seminar Tenantiaid a Phreswylwyr, Sioe Sir Ddinbych a Sir y Fflint a

digwyddiadau eraill yn y Sir e..e. Sioe Caerwys, i ymgysylltu â thrigolion a hyrwyddo arferion gwastraff cynaliadwy. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi llwyfan i dynnu sylw at unrhyw faterion neu gynlluniau newydd drwy'r Sir. Mae Sir y Fflint hefyd yn cynnig cyfleusterau ailgylchu ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yn Sir y Fflint, i annog ailgylchu a helpu arallgyfeirio deunyddiau o safleoedd tirlenwi.

Ymgyrchoedd Cenedlaethol

7.11 Gan weithio gyda Craff am Wastraff Cymru a'r Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), mae Sir y Fflint yn hyrwyddo ac yn cefnogi Ymgyrchoedd Cenedlaethol yn weithgar gan gynnwys yr Wythnos Ailgylchu Fawr, Wythnos Glytiau a'r Wythnos Gompostio Genedlaethol. Mae'r Ymgyrchoedd Cenedlaethol hyn yn canolbwyntio ar themâu Rheoli Gwastraff penodol ac yn rhoi cyhoeddusrwydd rhagorol i gynulleidfau ehangach, trwy bob math o gyfryngau gan gynnwys y Teledu, y Rhyngwyd, Papurau Newydd a Radio. Mae Sir y Fflint yn hyrwyddo Themâu Cenedlaethol ynghyd â mentrau lleol.

Taflenni Gwybodaeth

7.12 Er mwyn helpu, cynghori a hyrwyddo gwasanaethau, mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i ddarparu pecynnau gwybodaeth am ailgylchu yn y cartref i drigolion er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n gynaliadwy a bod mwy o bobl yn cymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr holl wasanaethau gwastraff sy'n cael eu darparu gan Sir y Fflint a rhestr A -Y o Ailgylchu a Chompostio yn egluro pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, eu hailddefnyddio a'u compostio ac yn ble.

Cysylltiadau gyda'r Cyfryngau

7.13 Mae'n hynod bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gwasanaethau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleusterau a chyfranogiad yn ein gwasanaethau casglu ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni'r targedau sydd wedi eu gosod. Mae Sir y Fflint yn gweithio gydag amryw o gyfrff cyfryngol i hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy gan gynnwys:-

- ▶ Erthyglau misol mewn papurau lleol
- ▶ Erthyglau yng nghyhoeddiad Cyngor Sir y Fflint 'Eich Cymuned Eich Sir'
- ▶ Dalennau a roddir mewn Cylchgronau Cyngor Lleol a Thref a chylchlythyrau ysgolion
- ▶ Cysylltiadau gyda Hysbysebion Radio a Theledu y Cynllun Craff am Wastraff
- ▶ Datganiadau i'r Wasg
- ▶ Gwelliannau Gwefan

Trelar yr Ymgyrch

7.14 Defnyddir treiler yr ymgyrch sydd wedi'i addasu fel uned symudol ar gyfer ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. Defnyddir y treiler mewn Digwyddiadau Lleol, fel y Sioeau Cymunedol, Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug a Digwyddiadau Corfforaethol fel y rhestrwyd yn gynharach. Mae'n darparu cyfleuster delfrydol i hyrwyddo lleihau gwastraff, ailgylchu a chompostio. Mae'r treiler yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo ailgylchu hefyd mewn meysydd lle mae'r nifer sy'n cyfranogi'n isel.

Marchnata

7.15 Mae marchnata Gwasanaethau Gwastraff yn bwysig er mwyn creu hunaniaeth i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Addaswyd y logo ar Gerbydau Casglu er mwyn gwahanu'r fflyd gasglu oddi wrth wasanaethau'r Cyngor. Roedd y cerbydau'n gyfle gwych i hyrwyddo arferion gwastraff cynaliadwy. Y thema sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yw'r cwestiwn pryfoclyd 'Beth aeth i'ch heddiw?' ; y nod yw dal ati ddefnyddio'r cerbydau i gyfleu negeseuon allweddol sy'n ysgogi.

Mae gan Sir y Fflint ddeunyddiau hyrwyddo penodol gyda brandio unigryw fel:

- ▶ Ailgylchu dros Sir y Fflint
- ▶ 'Out of the Blue'
- ▶ 'Beth aeth i'ch bin chi heddiw?'



Mae'r deunyddiau hyrwyddo hyn yn ategu negeseuon allweddol am arferion rheoli gwastraff cynaliadwy ac mae'n gwneud pobl yn fwy ymwybodol o arallgyfeirio deunyddiau o safleoedd tirlenwi.

Cystadlaethau / Cynlluniau Cymell

7.16 Mae Sir y Fflint yn ymrwymedig i gynyddu ymwybyddiaeth o reoli gwastraff drwy gynlluniau cymell megis cystadlaethau a rafflau.

7.17 Mae Sir y Fflint wedi hyrwyddo'r 'Her Coed Melyn' sy'n gynllun amgylcheddol llawn hwyl i ysgolion, a roddwyd ar waith gan y Tudalennau Melyn (Yellow Pages) a Choed Cadw. Y nod yw casglu ac ailgylchu hen lyfrau ffôn Tudalennau Melyn a bydd yr ysgolion sydd wedi casglu'r nifer mwyaf fwyaf fesul disgybl yn ennill gwobrau ariannol. Mae Sir y Fflint wedi hyrwyddo a hwyluso'r gystadleuaeth hon am y 4 blynedd ddiwethaf, ac mae wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth arallgyfeirio Gwastraff Trefol Bodderraddadwy o safleoedd tirlenwi. Cynhelir rafflau bob blwyddyn i helpu i hyrwyddo compostio Coed Nadolig Go-iawn yn y Parciau Ailgylchu. Gall unrhyw un o'r trigolion sy'n dod â'i goeden i unrhyw un o'r 8 Parc Ailgylchu roi ei mewn cystadleuaeth raffl. Mae hyn wedi digwydd ers 3 blynedd ac mae wedi helpu i hyrwyddo compostio yn y parciau ailgylchu.

7.18 Cynllun ar gyfer y dyfodol yw gweithio gyda chiriwiau casglu i enwebu Pencampwyr Ailgylchu Cartrefi. Y nod yw adnabod trigolion sy'n ymwneud yn weithgar ag ailgylchu a chompostio a'u gwobrwyo am eu hymdrechion. Rhagwelir y bydd y cynllun hwn a rhai eraill tebyg iddo'n annog a chynyddu nifer y trigolion sy'n cymryd rhan yn ein gwasanaethau casglu.

Digwyddiadau Compostio Lleol

7.19 Darperir compostwyr cartref yn rhad ac am ddim, fel teclyn addysgol i glybiau Eco neu glybiau compostio neu arddio, mae hyn yn helpu plant i ddysgu mor bwysig yw compostio deunyddiau organig. Mae Sir y Fflint hefyd yn bwriadu cynnal gweithdai i hyrwyddo a chynghori trigolion ynghylch 'sut i gompostio'. Cynnal sesiynau ymarfer i drigolion yw'r nod iddynt gael y profiad a'u hannog i gompostio gartref gan hyrwyddo lleihau gwastraff. Sefydlir cysylltiadau gyda'r coleg garddwriaethol lleol.

Casglwyr Sbwriel / Cefnogi Digwyddiadau Glanhau Cymunedol Lleol

7.20 Mae Sir y Fflint yn cynnig ac yn hyrwyddo benthyg casglwyr sbwriel a siacedi llachar ar gyfer digwyddiadau glanhau lleol, ynghyd â bagiau ar gyfer ailgylchu. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth ynghylch achosion a phroblemau sbwriel ac yn annog arferion rheoli sbwriel da. Mae'r tîm yn cydweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus i dynnu sylw at broblemau sbwriel.

Canolfannau Ymwelwyr / Parciau Eco

7.21 Fel rhan o Brosiect Trin Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru rhagwelir y gallai fod cyfle i gael canolfan ymwelwyr/addysg. Nod y ganolfan fyddai datblygu, ategu ac ychwanegu gwerth at weithgareddau addysg ac ymwybyddiaeth y Cyngor. Bydd hyn yn gyfle i gyfleu negeseuon amrywiol am reoli gwastraff yn gynaliadwy ac yn darparu lleoliad delfrydol ar gyfer hyfforddiant ac ymweliadau i gael profiad uniongyrchol o sut mae Sir y Fflint yn delio gyda gwastraff.

Gweithio mewn Partneriaeth

7.22 Mae Sir y Fflint hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill yn aml, gan gynnwys:

Cynllun Craff am Wastraff

7.23 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyllido'r Cynllun Craff am Wastraff ers 2002 i roi gwybodaeth swyddogol i'r cyhoedd am reoli deunyddiau ac adnoddau yn fwy cynaliadwy, a lleihau gwastraff. Maent yn trefnu Ymgyrchoedd Cenedlaethol a Hysbysebion Cenedlaethol ar y radio a'r teledu.

Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)

7.24 Mae WRAP yn cynnig cefnogaeth ac adnoddau i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau ailgylchu a chynghor atal gwastraff o safon uchel. Maen nhw'n darparu pecynnau cymorth ac arferion gorau i annog rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

7.25 Mae CLILC yn cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol unedol ac yn bodoli i wasanaethu eu haelodau a hyrwyddo democratiaeth yn lleol. Dibenion pennaf CLILC yw hyrwyddo gwell llywodraeth leol a'i enw da a chefnogi awdurdodau wrth iddynt ddatblygu polisïau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth. Mae ganddynt Swyddogion penodol ar gyfer Rheoli Gwastraff a pherthynas waith agos gyda Sir y Fflint.

Pwyllgor Cyngori Awdurdodau Lleol ar Ailgylchu (LARAC)

7.26 Sefydlwyd LARAC yn 1985 i gynrychioli barn awdurdodau lleol ar faterion gwastraff ac ailgylchu. Y prif amcanion yw hysbysu a lobio llunwyr barn a chrewyr polisïau allweddol ar ran aelodau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ac amserol yn cael ei rhannu ymhlith aelodau LARAC ac yr ymgynghorir â hwy'n rheolaidd. Mae Sir y Fflint wedi bod o aelod o LARAC ers sawl blwyddyn ac yn ei ystyried yn gorff defnyddiol iawn ar gyfer rhannu arferion gorau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau rheoli gwastraff yn y DU ac yn rhyngwladol.

Asiantaeth yr Amgylchedd

7.27 Prif amcanion Asiantaeth yr Amgylchedd yw gwarchod a gwella'r amgylchedd, a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'n chwarae rhan ganolog mewn cyflenwi blaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth y Cynulliad ac yn gyfrifol am orfodaeth ac erlyniadau. Mae Sir y Fflint yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar gynlluniau tipio anghyfreithlon ynghyd â chyflenwi gwybodaeth am ddata gwastraff trwy'r system WasteDataFlow.

Y Sector Gwirfoddol

7.28 Mae Sir y Fflint yn gweithio gyda llawer o gyrff Gwirfoddol ac Elusennol, fel mudiadau ailddefnyddio dodrefn, cynlluniau ailddefnyddio tecstilau a grwpiau cymunedol. Nod Sir y Fflint yw cydweithio gyda chyrff i hyrwyddo rheoli gwastraff yn gynaliadwy drwy'r holl sir.

Cadw Cymru'n Daclus

7.29 Nod Cadw Cymru'n Daclus yw annog gweithredu i gynnal Cymru lanach, saffach a thaclusach. Mae Sir y Fflint yn gweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus i annog preswylwyr i ymddwyn yn gyfrifol ac i annog pobl i dderbyn cyfrifoldeb am eu hamgylchedd eu hunain.

Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru

7.29 Prif nod yr Ymddiriedolaeth yw 'Datblygu marchnadoedd lleol am ddeunydd ailgylchu yng Nghymru'. Mae eu His-adran Cefnogi Llywodraeth Leol yn gweithredu ar y cyd gyda Sir y Fflint a chyrff llywodraeth leol eraill er mwyn i bartneriaethau allu sylweddoli orau y gallant werth eu cyflenwad deunydd eildro (deunyddiau y gellir eu hailgylchu). Gall yr is-adran hefyd ymchwilio a darparu gwybodaeth ar dechnolegau trin gwastraff a mentrau caffael gwyrdd. Mae'n gweithredu fel pont hefyd rhwng y sector cyhoeddus a phreifat.

Y Gymdeithas Deunyddiau Organig

7.30 Y Gymdeithas Ailgylchu Deunyddiau Organig yw'r prif gorff masnachol ar gyfer y diwydiant rheoli gwastraff bioddiraddadwy yn y DU. Mae'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am ddeunyddiau organig.

Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI)

7.31 Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir y Fflint yn 2008. Mae ei waith yn troi o gylch pedair prif ffrwd waith:

- ▶ Perthnasoedd partneriaethau effeithiol a llawn ymddiriedaeth fel carfan o arweinwyr lleol
- ▶ Cyflawni cyfrifoldebau y BGLI – mae hyn yn cynnwys cynhyrchu Strategaeth Gymunedol ystyrlon ac addas i'r diben
- ▶ Partneriaethau strategol yn cael eu llywodraethu ac yn perfformio'n gyson ac yn effeithiol, e.e., Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Adfywio
- ▶ Nodi problemau cyffredin fel cyrff cyhoeddus/cyflogwyr, er enghraifft y defnydd o ynni, rheoli gwastraff, hyfforddiant a datblygiad